



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ynghylch Adolygiad Cynaliadwyedd Rheoliadau Adeiladu

Ymgorffori elfennau o'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol blaenorol ar
Adeiladau Cynaliadwy yn rhan o Reoliadau Adeiladu yng Nghymru

Mehafin 2017

Cynnwys	Tudalen
Cyflwyniad	3
Yr ymatebion i'r ymgynghoriad - trosolwg	5
Rhan E – Gwrthsefyll sain	10
Rhan G – Glanweithdra, Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr	13
Gwybodaeth ar gyfer y defnyddiwr	29
Rhan Q – Diogelwch Preswyl	36
Effaith Amgylcheddol Cylch Oes	45
Cyrchu deunyddiau mewn modd cyfrifol	52

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch *Adolygiad Cynaliadwyedd Rheoliadau Adeiladu* (a agorodd ar 1 Mawrth 2016 ac a ddaeth i ben ar 24 Mai 2016). Mae wedi'i strwythuro ar sail y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad hwnnw. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus wrth ffurfio fersiwn derfynol y polisi hwn.

Safbwyntiau'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yw'r rheini a geir yn y crynodeb hwn, ac nid ydynt o anghenraid yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Rheoliadau Adeiladu

Diben Rheoliadau Adeiladu yw rheoli mathau penodol o waith adeiladu, yn bennaf y gwaith o godi ac estyn adeiladau a darparu neu estyn rai gwasanaethau neu ffitiadau penodol. Nod pennaf y Rheoliadau Adeiladu hyn yw sicrhau bod adeiladu yn cwrdd â safonau penodol o ran iechyd, diogelwch, lles, cyfleustra a chynaliadwyedd.

Cyfrifoldeb y sawl sy'n gwneud y gwaith yw cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, ac mae'r system sy'n rheoli adeiladu yn helpu i sicrhau bod lefel ofynnol o berfformiad yn cael ei chyflawni. Gwaith corff rheoli adeiladu, sef naill ai'r awdurdod lleol neu archwilydd cymeradwy o'r sector preifat, yw gweithredu fel corff annibynnol trydydd parti sy'n profi ac yn sicrhau bod gwaith adeiladu yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Dewis arall, yn hytrach na bod trydydd parti'n cynnal profion i reoli adeiladu, yw bod gosodwyr yn hunanardystio bod rhai mathau o waith yn cydymffurfio â'r rheoliadau. I wneud hyn, rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru fel aelodau o gynllun hunanardystio person cymwys ac wedi cael asesiad sy'n cadarnhau eu bod yn gymwys i wneud hyn.

Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y modd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. O ganlyniad, maent yn helpu i roi manteision sylweddol i gymdeithas. Gall y rheoliadau hefyd olygu costau i fusnesau ac unigolion fel ei gilydd. Mae natur "ymarferol" y Rheoliadau Adeiladu, yn sgil y ffaith bod y rheoliadau yn pennu'r gofynion cyffredinol yn hytrach na rhagnodi sut yn union y dylid cyflawni'r rheini, yn ceisio lleihau'r gost hon cyn belled ag y bo modd a sicrhau nad yw'r rheoliadau yn amharu ar arloesi. Mae'r canllawiau yn y Dogfennau Cymeradwy sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn pennu rhai ffyrdd o gyflawni'r gofynion hyn, ond nid oes yn rhaid dilyn y canllawiau os gellir dangos bod modd cyflawni'r lefel o berfformiad sy'n ofynnol mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn rhoi eglurder i gyrfff rheoli adeiladu a'r diwydiant fel ei gilydd.

Trosolwg o'r ymgynghoriad

Ym mis Gorffennaf 2014, cymeradwyodd Gweinidogion Cymru ddiwygiad o'r polisi cynllunio cenedlaethol ar adeiladau cynaliadwy, gan olygu nad oedd y canllawiau perthnasol yn TAN 22: Adeiladau Cynaliadwy bellach yn berthnasol. Roedd TAN 22 yn cynnwys disgwyliad y dylai pob tŷ newydd yng Nghymru gyflawni Lefel 3 yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy (gyda chredydau ynni ychwanegol) ac y dylai pob adeilad annomestig yng Nghymru gyflawni lefel 'Da Iawn' BREEAM ynghyd a sgôr 'Rhagorol' ar gyfer ynni. Cyflwynwyd y polisi hwn yn 2009 i helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn gynaliadwy cyn i'r cyfrifoldeb dros reoliadau adeiladu drosglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2012.

Roedd newidiadau a wnaed i Ran L o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu ym mis Gorffennaf 2014 yn pennu bod y lefelau perfformiad o ran ynni yn gyffredinol yn cyfateb i'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig o dan y polisi cynllunio cenedlaethol ar adeiladau cynaliadwy.

Fel rhan o'r adolygiad o'r polisi cynllunio cenedlaethol ar adeiladau cynaliadwy, comisiynodd Llywodraeth Cymru Mott MacDonald i ganfod pa rannau o TAN 22, y Cod Cartrefi Cynaliadwy a BREEAM oedd eisoes yn cael sylw yn y Rheoliadau Adeiladu neu mewn polisiâu/canllawiau cynllunio, neu pa elfennau y gellid rhoi sylw iddynt drwy'r dulliau hynny.

<http://gov.wales/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/planning-for-sustainable-buildings-review/?skip=1&lang=cy>

Canfu'r adroddiad ymchwil bod nifer o rannau o'r Cod a BREEAM eisoes yn cael sylw digonol yn y Rheoliadau Adeiladu ac mewn polisiâu/canllawiau cynllunio, a bod potensial i ymgorffori nifer o'r rhannau eraill drwy wneud newidiadau yn y dyfodol i'r Rheoliadau Adeiladu neu i'r canllawiau cynllunio. Yn hyn o beth, mae'r gwaith a wnaed a oedd yn ymwneud ag elfennau yn y canllawiau cynllunio wedi cynnwys diwygio TAN 12: Dylunio a chyhoeddi canllawiau arfer da ar gynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy.

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/practice-guidance-planning-for-sustainable-buildings/?skip=1&lang=cy>

O ran y Rheoliadau Adeiladu, datblygwyd rhaglen waith yn dilyn hyn, wedi'i seilio ar ddadansoddiad Mott McDonald, ar gyfer y meysydd hynny a oedd yn rhoi cyfle i wella'r gofynion rheoliadol neu a oedd â chysylltiad cryf â pholisiau presennol Llywodraeth Cymru. Dyma'r meysydd a ddewiswyd ac a oedd â photensial i gael eu cynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu:

- Deunyddiau: cyrchu ac effaith cylch oes;
- Perfformiad acwstig;
- Gwybodaeth ar gyfer y defnyddiwr;
- Arbed dŵr; a
- Diogelwch preswyl.

Byddai arbed ynni, manau sychu a goleuo yn cael sylw mewn adolygiad yn y dyfodol.

Cafodd y cynigion eu datblygu a'u cyflwyno i weithgorau a Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu. Ar ôl cynnal trafodaethau, daethpwyd i'r casgliad bod angen gwneud newidiadau er mwyn cyflwyno'r holl gynigion uchod ond roedd yn bwysig dangos bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i hyn. Gan hynny, roedd y prif gynigion yn y ddogfen ymgynghori yn ymwneud â newidiadau yn y meysydd canlynol:

- Rhan G (Glanweithdra, Diogelwch Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr) – Domestig ac annomestig
- Rhan Q (Diogelwch preswyl)
- Gwybodaeth ar gyfer y defnyddiwr

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad - trosolwg

Yr ymatebwyr

Cafwyd 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad i gyd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu math o sefydliad o un ar ddeg dewis gwahanol ar y ffurflen (gydag 'arall' yn opsiwn ychwanegol). Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ffurflenni ymateb a gafwyd o bob sector.

Sector	Ymatebion	%
Cyrff rheoli adeiladu	6	20%
Adeiladwyr tai	2	6%
Dyluniwr / Peiriannwr / Syrfêwr	3	10%
Adeiladwr / Contractwr	0	0%
Datblygwr masnachol	0	0%
Ymatebwr unigol ac arall	2	6%
Cwmni dŵr	0	0%
Acwstegydd	1	3%
Yr Heddlu	1	3%
Rheoli Eiddo	1	3%
Gweithgynhyrchwr / y gadwyn gyflenwi	6	20%
Arall	5	17%
Corff ardystio trydydd parti	1	3%
Aelod o gynllun person cymwys	1	3%
Sefydliad o'r trydydd sector	1	3%
Cynghrair fasnach	1	3%

Rhannwyd y ddogfen ymgynghori yn chwe phennod a oedd yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Rhan E (Gwrthsefyll sain)
- Rhan G (Glanweithdra, Diogelwch Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr)
- Rhan Q (Diogelwch preswyl)
- Gwybodaeth ar gyfer y defnyddiwr
- Aseiad o'r effaith ar yr amgylchedd – cylch oes
- Cyrchu deunyddiau mewn modd cyfrifol

Gofynnwyd 53 o gwestiynau i gyd (ac eithrio C23, C27, C41, C44, C46, C48 a C54 a oedd yn gofyn am sylwadau'n unig). Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

Cwestiwn		Cytuno %	Anghytuno %	Gwag %
1	A ydych chi'n teimlo bod angen rhoi rhagor o ganllawiau i Swyddogion Rheoli Adeiladu wrth iddynt gynnal profion ar safleoedd, a hynny pan fydd profion "Cyn Cwblhau" yn dueddol o gael eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth, yn enwedig wrth ddewis pa anheddau i'w profi?	35	19	45
2	A oes gennych unrhyw sylwadau am y penderfyniad i beidio â diwygio Rhan E o'r Rheoliadau Adeiladu, yn sgil y dadansoddiad a wnaed?	19	39	42
3	A ydych chi'n cytuno bod yr uchafswm a gynigiwyd o 110 litr i bob person bob diwrnod yn dderbyniol ai peidio?	39	16	45
4	A ydych chi'n credu bod Opsiynau 1 i 4 yn ddichonadwy?	35	16	48
5	A ydych chi'n credu y gellid cynnig unrhyw uchafswm arall ar gyfer y safon perfformiad?	10	39	52
6	A ydych chi'n cytuno â'r safonau perfformiad a geir yn nhablau 3.1, 3.2 3.3 a 3.4?	29	19	52
7	A ydych chi'n cytuno bod y mathau o gydrannau a oedd wedi'u cynnwys yn y dull ffitiadau yn briodol?	39	13	48
8	A ydych chi'n credu bod y dull ffitiadau a'r dull sy'n defnyddio'r gyfrifiannell dŵr yn ffyrdd hyblyg o gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu?	52	3	45
9	A ydych chi'n cytuno y dylid cael gwared ar y ffactor sefydlog o 5 litr i bob person bob diwrnod o'r gyfrifiannell dŵr ar gyfer y defnydd o ddŵr allanol pan fydd gan anheddau uned storio dŵr glaw?	48	6	45
10	A ydych chi'n cytuno y dylai fod angen isafswm capasiti o 100 litr cyn cael gwared ar y ffactor sefydlog o'r gyfrifiannell dŵr?	45	10	45
11	A ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys rheoliad ar gyfer arbed dŵr mewn perthynas ag adeiladau annomestig?	42	10	48
12	A ydych chi'n cytuno â'r dull ffitiadau ar gyfer adeiladau annomestig?	39	10	52
13	A ydych chi'n cytuno â'r uchafswm ar gyfer y safonau perfformiad?	23	19	58
14	Os nad ydych yn cytuno, a ddylid cynyddu'r safonau perfformiad arfaethedig yn unol â'r targedau estynedig?	13	10	77
15	A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i beidio â chyflwyno rhagor o ofynion ar gyfer arbed dŵr (e.e. y tu hwnt i'r gofyniad presennol o	29	26	45

	125 litr y diwrnod ar gyfer anheddau) a hynny yn achos adeiladau sy'n destun newid defnydd sylweddol?			
16	A ydych chi'n cytuno â Llywodraeth Cymru na ddylid rheoleiddio camau i arbed dŵr wrth adnewyddu ffitiadau?	39	13	48
17	A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau eraill o ran cydymffurfio neu berfformiad a allai ddeillio o gyflwyno safonau arbed dŵr ychwanegol ar gyfer anheddau newydd?	16	39	45
18	A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau o ran cydymffurfio neu berfformiad drwy gyflwyno camau i reoleiddio'r modd y caiff dŵr ei arbed mewn adeiladau annomestig newydd?	13	39	48
19	A ydych chi'n meddwl bod arfer presennol y diwydiant yng Nghymru gyda golwg ar ffenestri, drysau a chloeon mewn anheddau newydd yn ddigon i fynd i'r afael â diogelwch preswyl yng Nghymru?	10	55	35
20	Ac ystyried y newidiadau diweddar i ddiogelwch preswyl yn Lloegr, y safonau ar hyn o bryd yn yr Alban a'r Gymeradwyaeth Adeiladu Genedlaethol - Diogelu drwy Ddylunio, a ydych chi'n meddwl ei bod yn ddigon i Lywodraeth Cymru gynnig canllawiau ynglŷn â diogelwch tai preswyl heb gyflwyno safon orfodol?	10	65	26
21	Ac ystyried bod llai o dorri i mewn a dwyn o gartrefi erbyn hyn, a ydych chi'n cytuno bod angen safon orfodol yng Nghymru ar gyfer ffenestri a drysau i anheddau newydd?	68	10	23
22	A ydych chi'n cytuno mai'r dewis gorau yw cyflwyno safon orfodol drwy gyfrwng y Rheoliadau Adeiladu?	71	6	23
24	A ydych chi'n cytuno â chynnwys goleuadau diogelwch allanol yn rhan o'r safon ofynnol?	45	23	32
25	A ydych chi'n credu bod unrhyw elfennau eraill y dylid eu hystyried yn rhan o'r safon orfodol megis ardystio trydydd parti?	26	42	32
26	A ydych chi'n cytuno y bydd grymoedd y farchnad ar gyfer eiddo sy'n cael ei adeiladu o'r newydd yn llywio'r farchnad adnewyddu ac yn annog gweithgynhyrchwyr i ddechrau datblygu'r newidiadau wrth ddatblygu cynhyrchion a manylebau ar gyfer diogelwch preswyl?	42	26	32
28	A ydych chi'n cytuno bod angen rheoleiddio safonau diogelwch yn y farchnad adnewyddu?	45	19	35
29	A ydych chi'n cytuno bod angen i Fentrau Bach a Chanolig roi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr eiddo domestig?	52	13	35
30	A ydych chi'n cytuno mai cynghori yn	55	16	29

	hytrach na rheoleiddio fyddai'r llwybr gorau i'w ddilyn er mwyn annog pobl i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr?			
31	A ydych chi'n cytuno y byddai creu canllaw ar ffurf templed yn help i Fentrau Bach a Chanolig ac yn gwella cysondeb ac ansawdd y wybodaeth a roddir i'r defnyddiwr?	71	0	29
32	A ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y pynciau a nodwyd mewn unrhyw dempled posibl yn y Canllawiau i Ddefnyddwyr Tai?	61	3	32
33	A ydych chi'n cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru sef na fyddai'n ymarferol creu templed Canllawiau i Ddefnyddwyr Adeiladau oherwydd bod adeiladau annomestig yn amrywio o ran eu maint ac o ran y ffordd y maent yn cael eu defnyddio?	58	6	39
34	A ydych chi'n cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru fod digon o wybodaeth yn cael ei darparu eisoes ar gyfer defnyddwyr adeiladau annomestig?	55	6	42
35	A ydych chi'n credu y gallai'r drefn modelu gwybodaeth am adeiladau (BIM) o bosibl gynnis ateb o ran darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr?	55	3	39
36	A ydych chi'n credu y dylid ystyried labelu cynhyrchion ar sail data LCA?	19	13	39
37	Yn eich profiad chi, beth yw'r manteision masnachol sydd ynghlwm wrth gynnig EPD o'i gymharu â chost cynnal yr asesiad?	6	35	58
38	A ydych chi'n ymwybodol bod gwelliannau pendant i'r gadwyn gyflenwi gweithgynhyrchedd ar ôl cynnal asesiad cylch oes?	10	45	45
39	A ydych chi'n llwyr ymwybodol o'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â LCA cyn iddynt ddarllen yr adolygiad?	29	35	35
40	A ydych chi'n credu bod angen ymchwilio i ganlyniadau LCA, eu mesur a gwella'u cywirdeb?	42	13	45
42	A ydych chi'n credu bod honiadau heb eu rheoleiddio a rhai di-sail ynglŷn â'r amgylchedd yn rhwystr rhag hyrwyddo cynhyrchion sy'n wirioneddol gynaliadwy?	35	13	52
43	A yw effaith adeiladau newydd ar yr amgylchedd o'i chymharu ag effaith adnewyddu'n cael ei hystyried ddigon yn y broses benderfynu?	19	32	48
45	A ydych chi'n cytuno nad yw'n ymarferol ar hyn o bryd inni gyflwyno rheoliadau cyrchu cyfrifol yng Nghymru?	55	6	39
47	A ellid gwneud rhagor yn y diwydiant i greu canllawiau ynghylch ardystio cyrchu cyfrifol ac a allwch gynnig enghreifftiau?	52	3	45

49	A ellid gwneud rhagor yn y diwydiant i greu canllawiau ynghylch ardystio cyrchu cyfrifol ac a allwch gynnig enghreifftiau?	42	3	55
50	A ydych chi'n cytuno y byddai lliniaru'r gofynion cyrchu cyfrifol i fentrau bach a chanolig yn golygu y byddai'n ymarferol creu rheoliadau newydd.	42	13	45
51	O ran eich gallu i gystadlu yn y farchnad o fewn y diwydiant, a ydych chi'n teimlo y byddai dilyn y dull a ddisgrifir uchod yn cau'r bwllch rhwng cwmnïau mawr a bach, ynteu'n trosglwyddo'r anfanteision i'r cwmnïau mwy?	19	16	65
52	Hyd y gwyddoch, a ydych chi'n teimlo bod gormod o fiwrocratiaeth a bod hynny'n gallu tarfu ar sicrhau ardystiad cyrchu cyfrifol?	34	13	52
53	Yn eich barn chi, a oes modd i gyflenwyr a gweithgynhyrchwyr mawr y byd adeiladu wneud rhagor i hyrwyddo defnyddio deunyddiau a gyrchwyd yn gyfrifol?	45	13	42

2. Rhan E – Gwrthsefyll sain

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn a oes angen i Swyddogion Rheoli Adeiladu gael rhagor o ganllawiau wrth gynnal profion "Cyn Cwblhau" ac a oedd gan unrhyw un sylwadau am y penderfyniad i beidio â diwygio Rhan E o'r Rheoliadau Adeiladu.

Ceir crynodeb isod o'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau 1-2 yn yr ymgynghoriad ynghylch acwsteg mewn adeiladau preswyl. Yn yr adran sy'n dilyn y crynodeb o'r ymatebion ceir ymateb y llywodraeth, a hwnnw'n rhoi sylw i rai o'r prif bwyntiau a wnaed, yn ogystal ag amlinelliad o'r camau nesaf.

Roedd C1 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi rhagor o ganllawiau i Swyddogion Rheoli Adeiladu wrth iddynt gynnal profion ar safleoedd, a hynny pan fydd profion "Cyn Cwblhau" yn dueddol o gael eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth, yn enwedig wrth ddewis pa anheddau i'w profi.

- a. Mae'r adborth gan gyrrff rheoli adeiladu yn awgrymu bod digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd.
- b. O'r ymatebwyr, dywedodd 35% y byddai'n fuddiol cael mwy o ganllawiau. Teimlai 19% nad oedd angen rhagor o ganllawiau, ac nid ymatebodd 46% i'r cwestiwn hwn.
- c. O blith yr ymatebwyr a oedd yn credu y byddai rhagor o ganllawiau'n fuddiol, roeddent yn teimlo'n gyffredinol bod angen rhagor o ganllawiau ar Swyddogion Rheoli Adeiladu i wybod pa adeiladau y dylid eu profi.
- d. Teimlai nifer o ymatebwyr y dylai Swyddogion Rheoli Adeiladu gael fwy o ddisgresiwn wrth ddewis pa adeilad i'w brofi.
- e. Teimlai un ymatebwr y dylai Swyddogion Rheoli Adeiladu ddeall yr hyn sydd i'w brofi a'r fethodoleg wrth gynnal profion yn well. Os byddai problem wedyn wrth gynnal y prawf, byddai'r Swyddog perthnasol yn ymwybodol o hyn.
- f. Teimlai nifer o ymatebwyr fod angen rhagor o ganllawiau ac y byddai hyn yn sicrhau mwy o eglurdeb a chysondeb yn ogystal â gwell canlyniadau i ddefnyddwyr.

Ymateb y Llywodraeth

Byddai ehangu'r system brofion i gynnwys plotiau sy'n cael eu cwblhau wrth i'r gwaith ar y safle fynd rhagddo a hynny dros gyfnod hwy, ynghyd â sicrhau bod Swyddogion Rheoli Adeiladu yn penderfynu pa anheddau i'w profi, yn rhoi sampl mwy o faint wrth i safle ddatblygu. Mae gan Swyddogion Rheoli Adeiladu eisoes ddisgresiwn dros y rhaglen brofi. Efallai ei bod o fudd atgoffa Swyddogion Rheoli Adeiladu i roi rhagor o bwyslais ar ddewis adeiladau sydd i'w profi mewn ffordd sy'n lleihau'r posibilrwydd y bydd adeiladwyr yn rhoi triniaeth fwy ffafriol i adeiladau os ydynt yn gwybod y bydd y rheini'n cael eu profi.

Ysgrifennodd un ymatebwr ateb arbennig o fanwl gan roi sylw i nifer o gwestiynau a oedd y tu hwnt i gylch gwaith yr astudiaeth hon. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at rai o'r pwyntiau a godwyd, ond wrth ymateb i un pwynt penodol, nid yw'n fwriad rhoi pwerau i gyrrff rheoli

adeiladu er mwyn rhoi disgrisiwn iddynt ynghylch y sgôr inswleiddio sŵn sydd i'w gyflawni. Ystyriwyd a ddylai Swyddogion Rheoli Adeiladu gael pŵer i dderbyn safonau is neu i fynnu safonau uwch, ond gwrthodwyd y syniad hwn fel rhan o'r adolygiad.

Roedd C2 yn gofyn a oedd gan ymatebwyr unrhyw sylwadau am y penderfyniad i beidio â diwygio Rhan E o'r Rheoliadau Adeiladu, yn sgil y dadansoddiad a wnaed.

- a. O blith yr ymatebwyr, dywedodd 19% bod sylwadau ganddynt i'w rhoi. Dywedodd 39% nad oedd ganddynt sylwadau, ac nid ymatebodd 42% i'r cwestiwn hwn. Trafodir yr ymatebion unigol isod.
- b. Yn debyg i C1, rhoddodd un ymatebwr ymateb helaeth, gyda llawer o'r materion yn ymwneud â phethau sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn.
- c. Yn ystod yr adolygiad, roedd gan nifer o'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy bryderon y byddai cynyddu'r isafswm ar gyfer safon perfformiad yn gofyn am gynnydd anghymesur mewn manylebau gwaith, yn sgil y risg o fethu â chydymffurfio a'r gyfradd wella is.
- d. Teimlai un ymatebwr y byddai safonau uwch yn arwain at ragor o gostau i adeiladwyr bychain, a hynny'n rhoi mantais annheg i adeiladwyr tai sy'n fusnesau mwy.
- e. Teimlai'r un ymatebwr bod gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y cwynion am sŵn gan ddefnyddio'r systemau cydymffurfio presennol, ac felly nad oedd angen newid y safonau.
- f. Roedd un ymatebwr yn anghytuno â'r bwriad i beidio â newid Dogfen Gymeradwy E yn y rheoliadau adeiladu, o ran safon yr inswleiddio sain sy'n ofynnol. Awgrymodd yr ymatebwr hwn y dylai fod cynnydd o 5dB yn y safon. Fodd bynnag, ni roddodd yr ymatebwr unrhyw sail feintiol i'r cynnig hwn a defnyddiodd dermau a gyfeiriai at oddrychedd sawl gwaith yn yr ymateb.
- g. Teimlai ymatebwr arall fod perygl y byddai cael gwared ar y Cod Cartrefi Cynaliadwy heb gyflwyno safon wahanol yn lle hynny yn arwain at safonau is o ran inswleiddio sain. Cyfeiriodd yr ymatebwr hwn at ddata a oedd yn dangos bod dros dri chwarter y cartrefi sy'n cael eu hasesu gan aseswyr trwyddedig y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) ar hyn o bryd yn cael 1 credyd neu ragor o dan HEA 02 yng Nghymru.

Ymateb y Llywodraeth

Er y byddai'r dystiolaeth wahanol a roddwyd gan un o'r ymatebwyr yn faes ymchwil diddorol, credir bod y data hwnnw y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Mae'r safonau gwahanol a gynigir wedi'u seilio ar farn oddrychol, heb gyfeirio at y costau ychwanegol na meintiol i'r lleihad disgwyliedig yn anfodlonrwydd preswylwyr, sef dau fater a drafodwyd yn yr adolygiad.

Mae dylunwyr a gosodwyr yn caniatáu hyn a hyn o gyfeiliorni. Gan fod y rheoliadau adeiladu yn rhoi isafswm ar gyfer safonau perfformiad, mae angen i'r dylunydd a'r gosodwr ganiatáu ar gyfer nifer o elfennau o ansicrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd y cyfeiliorni hwn yn digwydd, a bydd canlyniadau'r prawf y tu hwnt i'r isafswm sy'n ofynnol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag,

dim ond llwyddo i basio o drwch blewyn a wneir. Byddai cynyddu'r isafswm ar gyfer safonau perfformiad yn gofyn am ganiatáu ar gyfer hyn a hyn o gyfeiliorni o hyd, a hynny'n golygu cynnydd pellach dros yr isafswm a gynyddwyd ynghyd â chostau'n gysylltiedig â hynny. Gallai costau uwch y safonau acwsteg uwch hefyd esbonio pam, o fewn y Cod Cartrefi Cynaliadwy, nad yw'r 3 credyd ar gyfer 5dB dros yr isafswm yn cael eu rhoi yn gyson o'u cymharu ag 1 credyd am 3dB neu uwch.

O ran yr ymateb a oedd yn cyfeirio at y risg o safonau is wrth inswleiddio sain yn dilyn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Cod Cartrefi Cynaliadwy, credir bod nifer o'r prif adeiladwyr tai sydd wedi cael credyd o dan y Cod Cartrefi Cynaliadwy yn defnyddio "Robust Details". Byddai parhau i ddefnyddio "Robust Details" yn golygu y byddai'r safonau a gyflawnir yr un fath. Ymhlith yr adeiladwyr sy'n dewis profi "Cyn Cwblhau", mae'n bosibl bod rhywfaint o ostyngiad yn lefel yr inswleiddio sain a gyflawnir, ond mae'r rhan fwyaf o adeiladwyr yn dal i ganiatáu ar gyfer elfen o gyfeiliorni yn eu dyluniadau er mwyn cyflawni'r isafswm o ran safon.

Crynodeb a'r camau nesaf

O ran cynyddu'r gofynion ar gyfer perfformiad acwstig, y gred oedd bod dylunwyr a'r sawl sy'n gosod yn caniatáu ar gyfer elfen o gyfeiliorni. Gan fod y rheoliadau adeiladu yn rhoi isafswm ar gyfer safonau perfformiad, mae angen i'r dylunydd a'r sawl sy'n gosod ganiatáu ar gyfer nifer o elfennau o ansicrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd y cyfeiliorni hwn yn digwydd, a bydd canlyniadau'r prawf y tu hwnt i'r isafswm sy'n ofynnol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, dim ond llwyddo i basio o drwch blewyn a wneir. Byddai cynyddu'r isafswm ar gyfer safonau perfformiad yn gofyn am ganiatáu ar gyfer hyn a hyn o gyfeiliorni o hyd, a hynny'n golygu cynnydd pellach dros yr isafswm a gynyddwyd ynghyd â chostau'n gysylltiedig â hynny. Gallai costau uwch y safonau acwsteg uwch hefyd esbonio pam, o fewn y Cod Cartrefi Cynaliadwy, nad yw'r 3 credyd ar gyfer 5dB dros yr isafswm yn cael eu rhoi n yn gyson o'u cymharu ag 1 credyd am 3dB neu uwch. Pan awgrymwyd y dylid cynyddu'r safonau, ni roddwyd tystiolaeth feintiol i gyd-fynd â hynny.

Roedd y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn am roi rhagor o ganllawiau i Swyddogion Rheoli Adeiladu o blaid rhoi rhagor o ganllawiau ynghylch dewis anheddau wrth gynnal profion "Cyn Cwblhau", a chanllawiau hefyd ynghylch canfod diffygion cyffredin mewn gwaith adeiladu a allai arwain at berfformiad gwael o ran inswleiddio sain. Mae gan Swyddogion Rheoli Adeiladu eisoes bwerau sylweddol wrth ddewis pa anheddau i'w profi a dylid eu hannog i ddefnyddio mwy ar y pwerau hyn.

Ar ôl adolygu'r canllawiau ar gyfer cynnal profion "Cyn Cwblhau" a'r ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad, y farn yw bod y canllawiau yn dderbyniol a'u bod yn rhoi digon o fanylion ar gyfer Swyddogion Rheoli Adeiladu a digon o hyblygrwydd. Cydnabyddir, fodd bynnag, bod angen edrych i weld a yw'r canllawiau hyn yn cael eu defnyddio yn ymarferol. Bydd ymchwiliad i weld i ba raddau y mae'r canllawiau'n cael eu defnyddio yn cael ei gynnal fel rhan o'r camau nesaf.

Yn sgil yr ymgynghoriad, y casgliad yw na fydd cynigion yn cael eu cyflwyno i newid isafswm y safonau acwsteg yn Rhan E nac i ddiwygio'r canllawiau sy'n cyd-fynd yn y Ddogfen Gymeradwy.

Rhan G – Glanweithdra, Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr

Roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar dargedau posibl ar gyfer defnyddio llai o ddŵr mewn anheddau newydd, yr opsiynau ar gyfer defnyddio dull ffitiadau a'r fethodoleg cyfrifiannell dŵr, a'r defnydd o ddŵr allanol. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn rhoi sylw i'r posibilrwydd o gyflwyno camau rheoleiddio i arbed dŵr mewn adeiladau annomestig newydd, eiddo sy'n destun newid defnydd, ac eiddo sy'n bodoli'n barod, gan ddadansoddi unrhyw broblemau disgwylidig o ran perfformiad neu gydymffurfio a allai fod yn gysylltiedig â'r cynigion hynny.

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ond roedd hyn ar gyfer yr holl bynciau yr ymgynghorwyd yn eu cylch. O'r 31 ymateb, rhoddodd o leiaf 19 ymateb i o leiaf un cwestiwn, neu yn y rhan fwyaf o achosion, ymateb i bob un o'r 15 cwestiwn a oedd yn ymwneud ag ansawdd dŵr ac arbed dŵr. Newidiadau arfaethedig a fyddai'r rhain i Ddogfen Gymeradwy Rhan G (Glanweithdra, Diogelwch Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr).

Fel rhan o'r adolygiad hwn, ar gyfer cwestiynau 3-18, dim ond yr ymatebion hyn yr ydym wedi'u hystyried wrth edrych ar ganrannau'r rheini a ymatebodd. Gwnaethom hyn gan ein bod yn cydnabod bod pobl wedi gadael mwyafrif y cwestiynau yn wag gan nad oedd ganddynt bryderon, diddordeb neu arbenigedd ym maes ansawdd dŵr ac arbed dŵr, a'u bod wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn ehangach er mwyn rhoi sylwadau am faterion gwahanol.

O'r holl ymatebwyr ar y pwnc hwn, cafwyd y nifer fwyaf o ymatebion gan gyrrff rheoli adeiladu (4). Adeiladwyr tai, cyrff proffesiynol a chymdeithasau / cynghreiriau masnach oedd y diwydiannau a gynrychiolwyd ail fwyaf (gyda dau ymateb yr un). Daeth yr ymatebion eraill o'r sectorau canlynol yn y diwydiant:

- a. Corff ardystio trydydd parti;
- b. Rheoli eiddo;
- c. Corff gwarantu;
- d. Ymatebwr unigol;
- e. Dyluniwr / peiriannwr / syrfëwr / ymatebwr unigol;
- f. Cyfoeth naturiol / yr amgylchedd;
- g. Gwasanaethau cynghori ac ymgynghori ynghylch ynni;
- h. Ymchwil, profi, safonau, hyfforddi;
- i. Sefydliad o'r trydydd sector.

Er bod pedwar ymateb wedi dod i law gan gyrrff rheoli adeiladu, nodwyd bod dau o'r ymatebwyr hyn o'r un cwmni / sefydliad a'u bod wedi rhoi'r un ymatebion (a'r un sylwadau) yn union.

Mae'r adran nesaf yn yr adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r ymatebion penodol i bob un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad am y posibilrwydd o ymgorffori rhagor o reoliadau ar gyfer ansawdd dŵr ac arbed dŵr yng Nghymru. Pan fydd hynny'n berthnasol, yn dilyn y crynodeb o'r ymatebion ceir ymateb Llywodraeth Cymru i rai o'r pwyntiau a

godwyd gan yr ymatebwyr.

Cartrefi newydd

Roedd C3 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno bod yr uchafswm a gynigiwyd o 110 litr i bob person bob diwrnod yn dderbyniol ai peidio.

- a. O'r 19 ymateb ysgrifenedig a gafwyd, roedd 12 (63%) yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd 5 ymatebwr (26%) yn anghytuno. Ymhlith y rheini a gytunai roedd cyrff rheoli adeiladu a chyrff proffesiynol, tra bo'r ymatebwyr a anghytunai yn perthyn i sawl sector yn y diwydiant, yn hytrach nag o un sector cyffredin.
- b. Roedd y rheini a gytunai yn gwneud hynny'n bennaf gan fod y Cod Cartrefi Cynaliadwy presennol yn nodi 105 litr i bob person bob dydd, sy'n golygu y byddai'r cynnig yn annhebygol o effeithio'n fawr ar adeiladwyr tai ac/neu osodwyr. Roedd yn ymddangos bod ymatebwyr o blaid y cynnig gan ei fod yn welliant ar y cyfyngiadau rheoliadol presennol.
- c. Roedd pryderon y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn wedi'u seilio ar ddwy elfen:
 - i. Thema gyffredin oedd y ffaith nad oedd pobl yn deall pam fod y defnydd o ddŵr yn cael ei reoleiddio pan nad oedd prinder dŵr yng Nghymru, yn ogystal â'r ffaith mai bychan iawn fyddai effaith rheoleiddio'r defnydd o ddŵr mewn cartrefi o'i gymharu â'i reoleiddio yn y seilwaith dŵr yn ehangach.
 - ii. Roedd cred y byddai rheoleiddio'r defnydd o ddŵr yn rhoi rhagor o faich ar adeiladwyr tai / perchnogion tai yng Nghymru ac o bosibl yn rhwystro datblygiadau newydd.
 - iii. Dywedodd rhai nad oeddent yn credu bod digon o dystiolaeth wedi'i rhoi i gyd-fynd â'r cynnig hwn.
- d. Roedd un o'r ymatebion yn cynnwys awgrym y dylid gwneud rhagor o waith ymchwil, gan nad oedd yr ymatebwr yn credu bod digon o dystiolaeth i gyd-fynd â'r cynigion.
- e. Dywedodd sefydliad sy'n cynghori ynghylch ynni ei fod o blaid gosod uchafswm ar gyfer defnyddio dŵr, a'i fod yn teimlo bod 110 litr i bob person yn dderbyniol ac y byddai modd cyflawni hynny wrth adeiladu cartrefi newydd cyn belled ag y gellid dethol cyfarpar addas wrth wneud y gwaith adeiladu gwreiddiol.
- f. Dywedodd un ymatebwr y dylem gynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb yn sgil yr uchafswm a gynigiwyd o 110 litr i bob person bob diwrnod.

Ymateb y Llywodraeth

Atgoffir y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad nad y posibilrwydd o brinder dŵr yng Nghymru, nawr nac yn y dyfodol, yw'r prif reswm na'r unig reswm dros yr adolygiad hwn a'r ffaith ei fod yn ystyried y posibilrwydd o gynnwys safonau i arbed dŵr yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r rhesymau eraill dros yr adolygiad hwn yn cynnwys y costau ynni sy'n gysylltiedig â'r galw am ddŵr poeth, yn ogystal â'r dŵr a ddefnyddir wrth drin a chludo dŵr.

Tan fis Gorffennaf 2014, roedd gofyn i adeiladwyr tai (drwy bolisi cynllunio) ddarparu cartrefi newydd yn unol â Lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy, sy'n pennu uchafswm dyddiol o 105 litr o ddŵr i bob person bob diwrnod. Mae'r safon a gynigir felly ar gyfer arbed dŵr yn cyd-fynd â'r safonau blaenorol. Gan hynny, nid oes disgwyl y bydd baich ychwanegol ar y gadwyn gyflenwi na chostau uwch i ddatblygwyr.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal, a chanfuwyd na fydd y newidiadau arfaethedig i'r gofynion ar gyfer arbed dŵr yn cael effaith ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fel y disgrifir uchod, roedd gofyn i adeiladwyr tai gyflawni'r safon hon ar gyfer arbed dŵr drwy bolisi cynllunio TAN 22 (nad yw'n berthnasol bellach). Mae'n werth pwysleisio hefyd nad oes cyfyngiad ar ddefnyddwyr adeiladau eu hunain o 110 litr i bob person bob diwrnod, gan mai methodoleg yn unig yw hon ar gyfer darogan y defnydd o ddŵr, yn hytrach na'r gwir ddefnydd. At hynny, nid yw'r gyfrifiannell arbed dŵr wedi'i dylunio i roi amcangyfrif cywir o'r union ddŵr y bydd defnyddwyr adeiladau yn ei ddefnyddio, ond bydd yn dangos a oes modd i'r annedd fod yn effeithlon o ran defnyddio dŵr mewn egwyddor ai peidio.

Ac ystyried yr ymateb cadarnhaol i'r uchafswm a gynigiwyd, bwriadwn barhau i gyflwyno'r uchafswm hwn drwy newid y rheoliadau adeiladu a Dogfen Gymeradwy G.

Roedd C4 yn gofyn a oedd ymatebwyr yn credu bod Opsiynau 1 i 4 yn ddichonadwy.

- a. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 63% o'r ymatebwyr yn cytuno bod opsiynau 1 i 4 yn ddichonadwy. Yn gyffredinol, roedd y rheini a roddodd ateb negyddol i'r cwestiwn hwn wedi rhoi ateb negyddol i gwestiwn 3 hefyd. Er eu bod yn cytuno'n dechnegol bod pob opsiwn yn ddichonadwy, nid oeddent yn cytuno bod angen cymryd mwy o gamau i reoleiddio'r defnydd o ddŵr yn y wlad.
- b. Er bod rhai yn cytuno ag egwyddor y dull ffitiadau, nid oeddent yn gallu rhoi sylwadau ynghylch pa mor ddichonadwy oedd pob opsiwn yn ei dro.
- c. Nid yw un o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad o'r diwydiant adeiladu tai o blaid unrhyw un o'r opsiynau sydd wedi'u hawgrymu, gan fod yr ymatebwr hwnnw'n credu y byddai'r cynigion yn cynyddu costau ac y gallai hynny yn ei dro effeithio ar adeiladu tai yng Nghymru. Awgrymwyd hefyd y byddai'n fuddiol cynnwys safonau perfformiad sy'n berthnasol i'r dŵr y bydd peiriannau

golchi llestri a pheiriannau golchi dillad yn ei ddefnyddio.

- d. Roedd ymateb gan gorff rheoli adeiladu yn mynegi pryder bod rhoi ystod o opsiynau yn arwain at ragor o gymhlethdod ac yn ei dro y gallai hynny achosi dryswch posibl. Fodd bynnag, roedd y corff yn mynd yn ei flaen i nodi bod opsiwn 2 yn cyd-fynd â Dogfen Gymeradwy G yn Lloegr a chan hynny efallai fod hwn yn opsiwn addas, gan y byddai'n galluogi defnyddio'r un fanyldeb gyson yng Nghymru a Lloegr.
- e. Anghytunai un o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ag opsiwn 2. Roedd hyn gan y credai fod cyfaint fflysio o 4/2.6 litr i doiledau yn rhy isel ac y byddai'n gofyn am fflysio drachefn yn y rhan fwyaf o achosion. Credai hefyd y gallai problemau posibl ddeillio o gyfraddau llif draeniau mewn pibelli gwastraff.

Ymateb y Llywodraeth

Ni ragwelir y bydd y costau'n cynyddu i adeiladwyr tai drwy gynnwys y rheoliadau arfaethedig hyn. Fel y nodwyd eisoes, tan fis Gorffennaf 2014, roedd Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cartref newydd gyflawni Lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy (fel isafswm), ac felly mae'r gofyniad o 105 litr i bob person bob diwrnod wedi bod yn arfer safonol yng Nghymru ers tro.

Cydnabyddir y gallai cynnwys pedwar o opsiynau gwahanol ar gyfer cydymffurfio achosi cymhlethdod diangen, a dryswch yn sgil hynny. Gan ystyried hyn, cynigir mai dim ond dau opsiwn a gaiff eu cyflwyno a'u cynnwys yn y Ddogfen Gymeradwy. Bydd adolygiad o'r pedwar cynnig yn cael ei gynnal, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, er mwyn penderfynu pa opsiynau yw'r mwyaf addas i'w cynnwys yn Nogfen Gymeradwy G yng Nghymru.

Rhoddir sylw mwy manwl i'r posibilrwydd o gynnwys peiriannau golchi dillad a pheiriannau golchi llestri yn yr ymateb i C7.

O ran y pwynt yn E uchod, er bod yr ymatebwr yn anghytuno ag opsiwn 2, mae'n mynd yn ei flaen i awgrymu (yn ei ymateb i gwestiwn 6) y dylid safoni'r gofynion yn unol â Dogfen Gymeradwy G 2016 yn Lloegr. Fodd bynnag, mae opsiwn arfaethedig 2 yn union yr un fath â'r safon sydd wedi'i hymgorffori yn Nogfen Gymeradwy G (fersiwn 2015) yn Lloegr, sef y dull ffitiadau dŵr 'opsiynol', ac mae'n cynnwys y gyfradd fflysio ddeuol isel o 4.0 / 2.6 litr ar gyfer toiledau. Mae'n ymddangos felly bod yr ymateb hwn yn gwrth-ddweud ei hun rywfaint.

Gofynnodd C5 i'r ymatebwyr a oeddent yn credu y gellid cynnig unrhyw uchafswm arall ar gyfer y safon perfformiad.

- a. Rhoddodd mwyafrif yr 19 ymatebwr (63%) ateb negyddol i'r cwestiwn hwn, sy'n golygu nad ydynt yn credu y dylid cynnig unrhyw uchafswm arall gwahanol ar gyfer y safon perfformiad.

- b. Ni chafwyd unrhyw sylwadau penodol yn yr atebion hyn, ac eithrio sylwadau'n cytuno y gallai unrhyw wahaniaeth yn yr opsiynau a gynigir arwain at ddefnyddio mwy o ddŵr.
- c. Fel yn achos cwestiynau 3 a 4, mae'r rheini o gyrff rheoli adeiladau wedi cytuno â'i gilydd ac â'r cynigion a gyflwynwyd. Gellir dweud yr un peth yn achos y cyrff proffesiynol sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad.
- d. O'r tri a roddodd ateb negyddol i'r cwestiwn hwn, cynrychiolwyd y sectorau canlynol yn y diwydiant:
 - i. **Rheoli eiddo** – noder hefyd bod yr ymatebwr hwn wedi anghytuno â Chwestiynau 3 a 4. Y rhesymeg dros holl ymatebion yr ymatebwr hwn yw ei fod yn credu bod angen rheoleiddio cwmnïau dŵr yn llymach er mwyn sicrhau bod eu seilwaith yn arbed mwy o ddŵr.
 - ii. **Dyluniwr/Peiriannwr/Syfëwr/Ymatebwr Unigol** – noder bod yr ymatebwr hwn wedi anghytuno â Chwestiwn 3 ond yn cytuno â'r cynnig a amlinellwyd yng Nghwestiwn 4.
 - iii. **Adeiladwr Tai** – unwaith eto, roedd yr ymatebwr hwn wedi anghytuno â Chwestiwn 3 ond yn cytuno â'r cynnig a amlinellwyd yng Nghwestiwn 4.
- e. Yr unig gynnig gwahanol a gafwyd yn yr ymgynghoriad oedd cynnwys opsiwn gyda chyfaint llai ar gyfer y baddon, e.e. 140 litr, a fyddai wedyn yn caniatáu ar gyfer defnyddio mwy o ddŵr yn y gegin.

Ymateb y Llywodraeth

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynnig gwahanol a grybwyllwyd, sef cael cyfaint llai ar gyfer y baddon, ond yn yr achos hwn yr argymhelliad yw defnyddio cyfrifiannell dŵr. Byddai'r dull hwn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn sefyllfa lle byddai perchennog neu adeiladwr y tŷ am osod cawod gyda chyfradd uwch i'r llif. Drwy ddefnyddio'r gyfrifiannell, gellid canfod sut i arbed dŵr mewn mannau eraill yn y cartref.

Roedd C6 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r safonau perfformiad a geir yn nhablau 3.1, 3.2 3.3 a 3.4 yn y ddogfen ymgynghori.

- a. Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn, heb unrhyw fwyafrif clir. Roedd 9 o'r 19 (47%) yn cytuno, roedd 6 (32%) yn anghytuno â'r safonau perfformiad manwl, a gadawodd 4 (21%) o ymatebwyr y cwestiwn yn wag.
- b. Roedd pob corff rheoli adeiladu yn cytuno, fel yr oedd y cyrff proffesiynol, ond roedd yr adeiladwyr tai a roddodd ymateb yn anghytuno â'r safonau perfformiad.
- c. Rhoddodd y rheini a anghytunai sylwadau go fanwl a oedd yn cynnwys:

- i. Gallai amrediad yr opsiynau o bosibl achosi cymhlethdod a dryswch;
- ii. Roedd cred y byddai'n well i'r rheoliad fod yn gyson â Dogfen Gymeradwy G y Rheoliadau Adeiladu yn Lloegr. Serch hynny, nodwyd hefyd y byddai perfformiad arfaethedig toiledau o 4.0 / 2.6 litr wrth fflysio yn achosi problemau technegol. Mae'r gyfradd fflysio isel hon wedi'i chynnwys yn fersiwn 2015 o Ddogfen Gymeradwy G yn Lloegr.
- iii. Dylai cyfradd y llif ar gyfer tapiau'r basn ymolchi a thapiau'r gegin fod yr un fath.
- iv. Roedd cyfradd y llif ar gyfer tapiau'r gegin yn rhy isel – roedd un ymatebwr yn credu y dylai cyfradd y llif fod yn isafswm o 8 litr y funud.

Ymateb y Llywodraeth

Ar sail yr ymateb cymysg a gafwyd i'r cwestiwn hwn, rydym yn cynnig adolygu hyn ymhellach er mwyn asesu'r posibilrwydd o greu strategaeth symlach ar gyfer yr opsiynau. Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 4, penderfynwyd mai dim ond dau opsiwn a fydd yn cael eu cynnwys yn y cynigion yn hytrach na'r pedwar a geir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd yr ymatebion manwl a gafwyd gan yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar y ddau opsiwn terfynol ar gyfer y Ddogfen Gymeradwy.

Roedd C7 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y mathau o gydrannau a oedd wedi'u cynnwys yn y dull ffitiadau yn briodol.

- a. Roedd 12 o'r 19 ymatebwr (63%) yn cytuno bod y mathau o gydrannau a gafodd eu cynnwys yn y cynnig yn briodol, gyda dim ond 4 (21%) yn anghytuno. Gadawodd 3 ymatebwr (16%) yr ymateb yn wag.
- b. Dywedodd y rheini a oedd yn cytuno mai'r mathau o gydrannau sydd wedi'u cynnwys yw'r rhai sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin mewn anheddau.
- c. Ni roddodd pob ymatebwr sylwadau ychwanegol, ond holodd llawer pam nad oedd peiriannau golchi llestri a pheiriannau golchi dillad wedi'u cynnwys.
- d. Rhoddodd un ymatebwr sylwadau manwl iawn yn nodi pam y dylid cynnal adolygiad pellach. Roedd yr ymatebwr hwn yn teimlo y dylai'r camau sy'n cael eu cymryd ganolbwyntio mwy ar ddull mwy cynaliadwy o leihau faint o ddŵr sy'n gollwng o'r prif gyflenwad a chanolbwyntio hefyd ar wella faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu a'r modd y caiff dŵr ei gludo. Aeth yr ymatebwr yn ei flaen i awgrymu y dylai fflyshiau siffon fod yn orfodol ar gyfer sisternau toiledau.
- e. Argymhellodd un ymateb y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y posibilrwydd y gallai fod goblygiadau anfwriadol i newid cydrannau, sef y byddai'n cynyddu'r galw am grantiau cyhoeddus i addasu cartrefi ac ateb anghenion pobl anabl. Nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn fel rhan o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Ymateb y Llywodraeth

Yn y papur ymgynghori, nodwyd nad oedd peiriannau golchi dillad a pheiriannau golchi llestri wedi'u cynnwys yn y cynigion am nifer o resymau. Fodd bynnag, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y ffaith bod y rhain wedi'u hepgor, ac felly, gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn rhan o fethodoleg y gyfrifiannell arbed dŵr, y bwriad bellach yw cyflwyno'r cydrannau hyn fel rhan o'r dull ffitiadau hefyd. Uchafswm y safonau perfformiad a gynigir yw 8.17 litr/cilogram ar gyfer peiriannau golchi dillad a 1.25 litr am bob set gyflawn o lestri i un person ar gyfer peiriannau golchi llestri. Dyma hefyd werthoedd perfformiad diodyn y gyfrifiannell arbed dŵr os nad yw union berfformiad y peiriannau yn hysbys.

O ran unrhyw oblygiadau anfwriadol yn sgil cynnydd yn y galw am grantiau cyhoeddus, dylid nodi bod y camau hyn i arbed dŵr yn cael eu defnyddio ym Mholisi Cynllunio Cymru rhwng 2009 a 2014, ac nid ydynt yn berthnasol pan fydd rhywun yn adnewyddu ffitiadau. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal, a chanfuwyd na fydd newidiadau arfaethedig i'r gofynion ar gyfer arbed dŵr yn cael effaith ar grwpiau gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n werth pwysleisio hefyd nad oes cyfyngiad ar ddefnyddwyr adeiladau eu hunain o 110 litr i bob person bob diwrnod, gan mai methodoleg yn unig yw hon ar gyfer darogan y defnydd o ddŵr, yn hytrach na'r gwir ddefnydd. At hynny, nid yw'r gyfrifiannell arbed dŵr wedi'i dylunio i roi amcangyfrif cywir o'r union ddŵr y bydd defnyddwyr adeiladau yn ei ddefnyddio, ond bydd yn dangos a oes modd i'r annedd fod yn effeithlon o ran defnyddio dŵr mewn egwyddor ai peidio.

Roedd C8 yn gofyn a oedd ymatebwyr yn credu bod y dull ffitiadau a'r dull sy'n defnyddio'r gyfrifiannell dŵr yn ffyrdd hyblyg o gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.

- a. Dywedodd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad (84%) eu bod, gyda dim ond 5% o'r ymatebwyr yn ymateb yn negyddol i'r cwestiwn hwn.
- b. Rhoddodd un corff rheoli adeiladu ateb negyddol. Serch hynny, pe bai'r dull ffitiadau yn cael ei symleiddio, dywedodd y byddai'n cytuno bod y dulliau hyn yn ffyrdd hyblyg o gydymffurfio, ac efallai na fyddai angen methodoleg wahanol wedyn.
- c. Roedd y rhesymau dros gytuno â'r cynnig hwn yn cynnwys y canlynol:
 - i. Mae'r gyfrifiannell yn hyblyg ac yn arbennig o ddefnyddiol i fusnesau bach a chanolig eu maint;
 - ii. Mae wedi cael ei defnyddio'n eang hyd yma;
 - iii. Mae'n bwysig cadw'r hyblygrwydd y mae'r gyfrifiannell yn ei roi.

Ymateb y Llywodraeth

Fel y nodwyd eisoes, a chan ystyried yr adborth a gafwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, y bwriad yw mai dim ond dau opsiwn a fydd yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau adeiladu ar

gyfer y dull ffitiadau. Bydd hyn yn symleiddio pethau, ac yn gwneud y system yn haws i bob defnyddiwr ei deall.

Roedd C9 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno y dylid cael gwared ar y ffactor sefydlog o 5 litr i bob person bob diwrnod o'r gyfrifiannell dŵr ar gyfer y defnydd o ddŵr allanol pan fydd gan anheddau uned storio dŵr glaw.

- a. Roedd pob un ac eithrio tri o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ynghylch y defnydd o ddŵr allanol. Dewisodd un ymatebwr adael y blwch yn wag.
- b. Mae hyn yn dangos bod yr ymatebwyr ar y cyfan o blaid cael gwared ar y ffactor sefydlog ar gyfer y defnydd o ddŵr allanol pan fydd uned storio dŵr glaw wedi'i chynnwys yn nyluniad annedd. Er eu bod yn cytuno, prin oedd y sylwadau a roddwyd, ac eithrio nodi y gallai hyn annog pobl i ddefnyddio'r dŵr a storiwyd gan leihau'r defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad. Roedd teimlad hefyd bod hyn yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddiwyd yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy ac mae'n adlewyrchiad cywirach o'r modd y bydd pobl yn defnyddio dŵr.
- c. Roedd y ddau ymatebwr a anghytunai yn perthyn i'r diwydiant adeiladu tai ac yn gorff proffesiynol. Ni roddodd yr olaf sylwadau eraill. Nid oedd yr adeiladwr tai yn credu y dylid gallu cyfnewid dŵr o gasgenni dŵr am ddŵr yfed. Gallai hyn achosi anawsterau wrth archwilio a phrofi bod pobl yn cydymffurfio â'r rheoliadau.
- d. Er bod ymatebwr o sefydliad cyfoeth naturiol/yr amgylchedd yn llwyr gefnogi'r bwriad, roedd yn ansicr a fyddai cael gwared ar y ffactor sefydlog a chynnwys uned storio dŵr glaw yn lle hynny yn golygu y byddai pobl yn defnyddio llai o ddŵr. Yr awgrym oedd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried unrhyw ymchwil presennol sy'n gallu dangos yn glir bod gosod unedau storio dŵr glaw yn gyffredinol yn golygu bod anheddau yn defnyddio llai o ddŵr na'r ffactor sefydlog o 5 litr i bob person bob diwrnod, cyn bwrw'n ei blaen yn derfynol â chynnig 3.

Roedd C10 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno y dylai fod angen isafswm capasiti o 100 litr cyn cael gwared ar y ffactor sefydlog o'r gyfrifiannell dŵr.

- a. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar y cyfan yn cyd-fynd â'r ymatebion i gwestiwn 9;
 - i. Roedd 15 (79%) yn cytuno;
 - ii. Roedd 2 ymatebwr yn anghytuno, sef adeiladwr tai a chorff rheoli adeiladu (er hynny, ar sail y sylwadau a roddwyd gan y corff rheoli adeiladu, rydym yn credu ei fod mewn gwirionedd yn cytuno â'r cynnig);
 - iii. Roedd 2 ymatebwr yn ansicr sut i ymateb i'r cwestiwn. Yn gyffredinol, roeddent yn cytuno ond yn credu bod angen gwneud rhagor o ymchwil.

- b. Mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei fonitro i sicrhau na fyddai neb yn cael gwared ar unrhyw ddulliau sydd ganddynt o storio dŵr. Nid yw hyn wedi cael ei ystyried yn rhan o'r adolygiad gan na chredwyd ei fod yn fater o bwys, yn benodol gan y gallai'r un pryder fod yn berthnasol i ddŵr sy'n defnyddio cydrannau mewnol.
- c. Mae'n ymddangos bod y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gyffredinol yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y ffactor sefydlog o'r gyfrifiannell dŵr cyn belled â bod isafswm capasiti o 100 litr ar gael wrth gasglu a storio dŵr glaw.

Ymateb y Llywodraeth

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ynghylch unedau storio dŵr glaw, rydym hefyd yn cydnabod y pryderon sydd wedi'u mynegi yn ystod yr ymgynghoriad, ac felly ein casgliad yw na fyddwn yn cynnwys cymal o'r fath yn y rheoliad ar hyn o bryd. At hynny, yn unol â'r argymhelliad gan y sefydliad cyfoeth naturiol/yr amgylchedd, awgrymwn y dylid gwneud rhagor o ymchwil cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gynnig posibl yn y dyfodol.

Yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy, rhoddir credyd am gynnwys system i gasglu dŵr glaw os yw'r fanyleb yn gywir a'r maint yn ddigonol, ac wrth ddatblygu'r cynigion, credwyd bod manteisio ar y credyd hwn yn ddull cyffredin a rhwydd ymhlith adeiladwyr tai o fwrw ati. Dyna pam yr ystyriwyd ei gynnwys yn y rheoliad. Fodd bynnag, nid yw cynnwys yr unedau storio allanol hyn yn cael gwared ar y ffactor sefydlog o'r gyfrifiannell arbed dŵr. Yn hytrach, mae'n nodwedd gynaliadwy ychwanegol yn yr annedd.

Mynegwyd pryder y gallai hyn ddod yn fater o dicio blwch yn unig, sef rhywbeth nad yw'n ddymunol ar gyfer rheoliadau adeiladu. At hynny, mae pryder na fyddai'n lleihau'r galw am ddŵr yfed gan na fyddai ffordd amlwg o sicrhau bod pobl yn cydymffurfio. Mae'n debygol y byddai dŵr yfed yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer pethau fel golchi ceir ac ysgeintwyr yn yr ardd. Gan hynny, argymhellir bod y ffactor sefydlog yn cael ei gadw'n rhan o'r gyfrifiannell arbed dŵr, hyd yn oed pan fydd tanc i storio dŵr glaw wedi'i gynnwys yn y fanyleb ac i gael ei osod yn yr annedd.

Adeiladau newydd annomestig

Roedd C11 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno y dylid cynnwys rheoliad ar gyfer arbed dŵr mewn perthynas ag adeiladau annomestig.

- a. Roedd cyfanswm o 13 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd 2 yn anghytuno a gadawodd 3 yr ymateb yn wag.
- b. Nid oedd patrwm clir, gydag un o'r adeiladwyr tai a chorff proffesiynol yn ansicr o'u hateb. Corff gwarantu, cynghrair fasnach ac ymatebwr unigol oedd y rheini a anghytunai.
- c. Roedd teimlad ei bod yn bwysig cadw cysondeb rhwng eiddo domestig ac

annomestig, a'r gred oedd y byddai hyn yn gyfle wedi'i golli i arbed dŵr pe na bai rheoliad o'r fath yn cael ei gynnwys.

- d. Roedd un o'r ymatebwyr o gorff rheoli adeiladu yn anghytuno â'r cynnig ond yn cydnabod fodd bynnag y byddai'n disodli'r gofyniad yn BREEAM.
- e. Cytunai ymatebwr arall y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer pob adeilad ac estyniad newydd, ac y dylid cyflwyno safonau perfformiad ar gyfer adeiladau annomestig.

Ymateb y Llywodraeth

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cyflwyno safonau perfformiad ar gyfer arbed dŵr mewn adeiladau annomestig. Y bwriad felly yw y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn Nogfen Gymeradwy G ar ôl ei diwygio. Mae'r safonau perfformiad yn cael sylw pellach mewn cwestiynau diweddarach.

Roedd C12 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r dull ffitiadau ar gyfer adeiladau annomestig.

- a. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar y cyfan yn cyd-fynd â'r ymatebion i gwestiwn 11. Yr unig wahaniaeth oedd bod sefydliad cyngori ynghylch ynni wedi gadael yr ymateb yn wag er ei fod yn cytuno â'r cynnig yng nghwestiwn 11.
- b. Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod dull ffitiadau yn rhoi cysondeb mewn maes a allai fod yn gymhleth yn sgil natur amrywiol eiddo annomestig.
- c. Roedd un ymatebwr yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor ond aeth yn ei flaen wedyn i drafod anheddau yn ei sylwadau ychwanegol, ac felly nid yw'n glir a oedd yn deall y cynnig yn iawn.
- d. Dywedodd un ymatebwr a oedd o blaid y cynnig y dylid cynnwys sinciau yn y cynigion, a theimlai hefyd bod angen rhagor o ymchwil i gyd-fynd â hyn.

Ymateb y Llywodraeth

Drachefn, roedd y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno'n gyffredinol â'r cynnig i ddilyn dull ffitiadau. Y bwriad felly yw y bydd hyn yn cael ei gynnwys wrth ddiwygio rheoliadau adeiladu yng Nghymru yn y dyfodol.

O ran sinciau, nid yw'n fwriad cyflwyno hyn ar hyn o bryd, yn sgil yr anawsterau posibl y gallai ei achosi o ran dŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prosesau.

Roedd C13 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r uchafswm ar gyfer y safonau perfformiad.

- a. Nid oedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn glir, gyda 7 ymatebwr yn cytuno, 6 yn anghytuno â'r lefelau perfformiad a gynigiwyd, a 5 yn gadael yr ymateb yn wag. Nid oedd unrhyw ymateb clir gan unrhyw gyrff yn y diwydiant chwaith.
- b. Gallai'r ymateb cymysg hwn fod yn sgil y dryswch sydd wedi'i achosi gan y geiriad yn y ddogfen ymgynghori; gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r **uchafswm** ar gyfer y safonau perfformiad, tra bo tabl 3.5 yn sôn am **isafswm** ar gyfer y safonau perfformiad. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at hyn ond rydym yn credu y gallai fod wedi camliwio'r canlyniadau.
- c. Roedd y rheini a anghytunai yn anghytuno am y rhesymau canlynol:
 - i. Mae'r safonau perfformiad yn wahanol i'r rhai yn y rheoliad arfaethedig ar gyfer eiddo domestig.
 - ii. Nid oes angen i wrinalau fflyshio gwastraff solid, ac felly ni ddylai'r gyfradd fflyshio ar gyfer y gydran hon fod yn uwch na'r gyfradd ar gyfer toiledau.
- d. Dylid rhoi rhagor o esboniad a chynnal ymchwil posibl i sicrhau bod y ffigurau hyn yn rhai synhwyrol.

Os nad oedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig yn C13, aeth C14 ymlaen i ofyn a ddylid cynyddu'r safonau perfformiad arfaethedig yn unol â'r targedau estynedig.

- a. Yn sgil natur y cwestiwn, cyfyngedig oedd yr ymatebion a gafwyd. O'r 6 ymatebwr a roddodd ateb negyddol i gwestiwn 13, roedd 3 yn cytuno y dylid defnyddio targedau estynedig ond roedd y 3 arall yn anghytuno.
- b. Ni roddwyd unrhyw sylwadau penodol yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn, ac eithrio gan ymatebwr a oedd o blaid ac a ddywedodd y dylai'r safonau perfformiad hyn gyd-fynd â'r gofynion ar gyfer eiddo domestig.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y dryswch ynghylch y cwestiynau hyn, yn ogystal â'r effaith bosibl ar yr ymatebion a gafwyd. Fodd bynnag, gan fod pobl yn cytuno'n gyffredinol â chwestiynau 11 a 12, rhagdybir bod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion fan hyn hefyd. Roedd yn ddefnyddiol iawn bod rhai o'r ymatebwyr wedi rhoi adborth manwl a rhesymau dros anghytuno, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn fanylach wrth ddatblygu fersiwn derfynol o Ddogfen Gymeradwy G.

Ar sail yr adborth hwn, mae'n ymddangos bod pobl yn ffafrio'r targedau estynedig y cyfeiriwyd atynt fel rhan o'r cynnig hwn. Mae hynny'n cyd-fynd â'r safonau arfaethedig ar gyfer perfformiad mewn eiddo domestig; yn enwedig tapiau'r basnau ymolchi a'r cawodydd, ac mae'r safonau hefyd yn cynnwys cyfradd fflyshio is i'r wrinalau o'u cymharu â'r toiledau.

O ganlyniad, bwriedir cyflwyno targedau estynedig yn y diwygiad terfynol o Ddogfen Gymeradwy G. Ystyriwyd y targedau estynedig hyn yn rhan o adroddiad costio ein ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad nad oedd goblygiadau cost ychwanegol o ran defnyddio'r targedau estynedig hyn o'u cymharu â'r safonau perfformiad arfaethedig a gafodd eu cynnwys yng nghynigion yr ymgynghoriad.

Newid defnydd sylweddol adeilad presennol

Roedd C15 yn gofyn a oedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i beidio â chyflwyno rhagor o ofynion ar gyfer arbed dŵr (e.e. y tu hwnt i'r gofyniad presennol o 125 litr y diwrnod ar gyfer anheddau) a hynny yn achos adeiladau sy'n destun newid defnydd sylweddol.

- a. Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gymharol gymysg, heb un farn gyffredin ymhlith yr ymatebwyr. Roedd 47% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig a 42% yn anghytuno, ac nid oedd patrwm amlwg ar draws sectorau'r diwydiant.
- b. Dywedodd y rheini a roddodd ateb negyddol i'r cwestiwn hwn y byddent yn disgwyl i adeiladau, o newid eu defnydd yn sylweddol, gynnwys gosodiadau a ffitiadau newydd ac felly nid oes unrhyw reswm pam na ddylent orfod bodloni'r un safonau perfformiad ag adeiladau newydd. Rhannai nifer o'r ymatebwyr y farn hon.
- c. Roedd corff rheoli adeiladu yn anghytuno â'r cynnig ac awgrymodd y dylid rheoleiddio adeiladau y mae eu defnydd yn cael ei newid yn sylweddol yn unol â 5a a 5b.
- d. Anghytunai sefydliad cynghori ynghylch ynni â'r dull arfaethedig o fwrw ati, ond argymhellodd ein bod yn adolygu Safon Ansawdd Tai Cymru. Aeth yn ei flaen i gynghori y dylai'r safon hon gynnwys mwy o fanylion am arbed dŵr.
- e. Aeth y sefydliad cynghori ynghylch ynni yn ei flaen i ddweud ei fod yn credu y dylid darparu tystiolaeth pan na fydd adeiladau sy'n destun newid defnydd sylweddol neu ailddatblygu mawr yn gallu sicrhau'r un perfformiad wrth arbed dŵr ag eiddo sy'n cael ei adeiladu o'r newydd. Roedd yn cydnabod hefyd na fyddai hyn efallai'n ymarferol yn achos adeiladau sydd eisoes â thechnoleg carbon isel / technoleg adnewyddadwy, gan y byddai hyn yn ei dro yn lleihau pa mor effeithlon yw'r dechnoleg honno a sut y mae'n gweithio.
- f. Ni roddodd llawer o'r rheini a oedd yn cytuno sylwadau eraill, ac eithrio sefydliad cyfoeth naturiol/yr amgylchedd, a awgrymodd y gallai fod modd edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno cod gwirfoddol i ddatblygwyr, heb i hwnnw fod yn berthnasol i'r rheoliad ei hun. Roedd gan gorff ardystio trydydd parti hefyd sylwadau. Dywedodd ei fod yn cytuno â'r cynnig ond bod hwn yn gyfle wedi'i golli, ac y dylai'r rheoliad o bosibl gyd-fynd â'r safonau ar gyfer adeiladau newydd pan fydd hynny'n rhesymol a phan na fydd yn tanseilio unrhyw faterion iechyd a diogelwch.

Ymateb y Llywodraeth

O ran Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'r mater hwn wedi'i gyfeirio at y swyddogion perthnasol sy'n gyfrifol am y gwaith hwn.

Gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylid cyflwyno rhagor o ofynion ar gyfer arbed ynni yn achos adeiladu sy'n destun newid defnydd sylweddol, nid ydym yn bwriadu newid y gofynion presennol.

Adnewyddu ffitiadau mewn adeiladau presennol

Roedd C16 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â Llywodraeth Cymru na ddylid rheoleiddio camau i arbed dŵr wrth adnewyddu ffitiadau.

- a. Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad (63%) yn cytuno â Llywodraeth Cymru na ddylid rheoleiddio ffitiadau sy'n cael eu hadnewyddu. Dim ond 21% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno, a gadawodd 16% eu hymateb yn wag.
- b. Roedd y cyrff proffesiynol yr ymgynghorwyd â hwy yn rhanedig eu barn, ond roedd yr adeiladwyr tai ill dau yn cytuno. Nid oedd y cyrff rheoli adeiladu yn cytuno â'i gilydd.
- c. Oni bai bod modd rheoli ffitiadau'n barhaol drwy gydol y gwaith adeiladu, roedd y rheini a anghytunai yn cydnabod y byddai camau i arbed dŵr yn ddiystyr, ac y dylid cael dull safonol o fwrw ati ar gyfer pob datblygiad yng Nghymru.
- d. Er bod y corff ardystio trydydd parti yn cytuno nad rheoleiddio yw'r ateb, roedd yn awgrymu y dylai canllawiau fod ar gael i berchnogion cartrefi wrth iddynt wneud newidiadau.
- e. Roedd sefydliad cyfoeth naturiol/yr amgylchedd yn cydnabod y byddai'n anodd rheoleiddio ffitiadau dŵr sy'n cael eu hadnewyddu; ond roedd yn credu y bydd yn hanfodol adolygu Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 yn rheolaidd wrth i effeithlonrwydd ffitiadau dŵr wella'n barhaol. Roedd y sefydliad hwn yn credu y bydd yr adolygiadau hyn yn bwysig i sicrhau bod y safonau gofynnol yn cael eu tynhau.
- f. Cyfeiriodd sefydliad cynghori ynghylch ynni at Safon Ansawdd Tai Cymru, a nodi bod cyngor yn fan hyn ynghylch manteision camau i arbed dŵr mewn rhaglenni ail-ffitio. Aeth yn ei flaen i awgrymu bod cyfle i gyflwyno rheoliadau (neu godau gwirfoddol) ar gyfer arbed dŵr yn yr adeiladau presennol hynny sydd o dan reolaeth yr awdurdod lleol.
- g. Roedd sefydliad ymchwil hefyd yn cytuno â'r cynnig i beidio â rheoleiddio camau i arbed dŵr wrth adnewyddu ffitiadau, a rhoddodd adborth defnyddiol. Roedd yn cydnabod bod y gallu i ddefnyddio ffitiadau mwy effeithlon i ryw

raddau yn dibynnu ar y seilwaith presennol, ac y bydd y seilwaith hwnnw'n cyfyngu ar y gallu i osod safonau perfformiad pendant ar gyfer ffitiadau o'r fath. Fodd bynnag, roedd y sefydliad yn awgrymu y gallai fod yn briodol cyflwyno rhyw fath o isafswm perfformiad er mwyn rhwystro gosod ffitiadau sy'n hynod aneffeithlon, ond mae'n nodi y gallai hyn fod yn anodd i'w reoleiddio gan fod rheoliadau Ewropeaidd yn berthnasol i'r maes hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Gan fod mwyafrif yr ymatebion (63%) yn cytuno â Llywodraeth Cymru na ddylid rheoleiddio ffitiadau sy'n cael eu hadnewyddu, ni chredir ei bod yn briodol cyflwyno camau i reoleiddio ffitiadau o'r fath ar hyn o bryd.

Cydymffurfio a pherfformiad

Roedd C17 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn rhagweld unrhyw broblemau eraill o ran cydymffurfio neu berfformiad a allai ddeillio o gyflwyno safonau arbed dŵr ychwanegol ar gyfer anheddau newydd.

- a. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr (63%) yn rhagweld unrhyw broblemau o ran cydymffurfio na pherfformiad, ond roedd 26% yn rhagweld problemau.
- b. Roedd y rheini a ragwelai broblemau yn gwneud hynny am sawl rheswm:
 - i. Roedd cred y gallai adeiladwyr tai a pherchnogion tai symud i ardaloedd eraill lle nad yw'r camau rheoleiddio mor llym.
 - ii. Mae'r cynigion yn ymddangos yn gymharol gymhleth a gallai hyn achosi problemau wrth geisio'u deall. Gallai hefyd arwain at roi baich ychwanegol ar gyrff rheoli adeiladu o ran hyfforddi staff a chwsmeriaid, asesu cynlluniau ar archwilio a yw pobl yn cydymffurfio.
 - iii. Mae marchnad dai Cymru yn gymharol fychan ac nid yw'n ddichonadwy disgwyl i weithgynhyrchwyr ddatblygu atebion gwahanol i farchnad fechan o'r fath. Credwn nad yw'r ymatebwr o bosibl wedi deall yn llawn bod y safonau perfformiad yr ydym wedi'u cynnig eisoes yn bodoli yn y farchnad.
 - iv. Gan gyfeirio at adran 3.4.3 o'r adroddiad ymgynghori, mae sefydliad cynghori ynghylch ynni yn credu y byddai camau eraill, fel cael gwared ar orlif carthffosiaeth cyfunol a draeniau'r briffordd o'r rhwydwaith, yn lleihau cyfaint y dŵr a ddefnyddir. Mae'n nodi bod perygl o golli'r cyfle i arbed dŵr mewn adeiladau ac i newid ymddygiad pobl yn sgil cynllunio strategol gwael a chynllunio gwael ar lefel y dalgylch.
 - v. Rhoddodd corff proffesiynol sylwadau am ddiametrau draeniau, maint y

cwmp a'r pellter i'r bibell ollwng.

Roedd C18 yn gofyn a oedd ymatebwyr yn rhagweld unrhyw broblemau o ran cydymffurfio neu berfformiad drwy gyflwyno camau i reoleiddio'r modd y caiff dŵr ei arbed mewn adeiladau annomestig newydd.

- a. Mae'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn ar y cyfan yn debyg iawn i'r rheini a gafwyd i gwestiwn 17, gydag un ymatebwr yn ailbysleisio y gallai costau gweithgynhyrchu gynyddu ar gyfer y rheini sy'n defnyddio llawer o ddŵr, gan arwain at fwy o fewnforio a cholli swyddi.
- b. Fel rhan o ymateb corff ardystio trydydd parti, pwysleisiwyd hefyd yr angen i gyfathrebu'r rheoliadau newydd hyn i bawb sy'n berthnasol.

Ymateb y Llywodraeth

Roedd yn galonogol gweld nad oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn rhagweld unrhyw broblemau o ran cydymffurfio neu berfformiad drwy gyflwyno safonau arbed dŵr ychwanegol ar gyfer anheddau newydd. Mynegwyd rhai pryderon, ond fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, nid yw'r safonau arbed dŵr ychwanegol yn fwy beichus na'r gofyniad presennol sy'n nodi y dylai pob cartref newydd gyrraedd Lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy, fel isafswm. Mae'r lefel hon yn galw am uchafswm defnydd dŵr mewnol o 105 litr y person bob diwrnod. O ganlyniad, mae'r ddadl y gallai adeiladwyr tai a pherchnogion cartrefi benderfynu symud i ardaloedd eraill yn ymddangos yn annhebygol.

At hynny, nid yw'r rheoliadau sy'n cael eu cynnig yn fwy beichus na'r rheini a fodolai o dan Bolisi Cynllunio Cymru tan fis Gorffennaf 2014, na'r rheini sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd lle mae prinder dŵr yn Lloegr. Mae'r rheoliadau newydd ar y cyfan yn cyd-fynd â'r rheini. Mae'r holl safonau perfformiad sydd wedi cael eu cynnwys yn y cynigion yn ymwneud â chynnyrch sydd eisoes ar gael yn y farchnad ac ni fydd gofyn i weithgynhyrchwyr ddatblygu cynhyrchion newydd.

Penderfynwyd cynnig camau i arbed dŵr ar gyfer y cydrannau hynny mewn adeiladau annomestig sy'n defnyddio dŵr ar gyfradd ddomestig yn unig, e.e. tapiau basnau ymolchi, toiledau, wrinalau a chawodydd, gan mai'r ffitiadau hyn yw'r rhai sydd fel rheol yn bresennol ym mhob math o adeiladau annomestig. Yn y ddogfen ymgynghori, ceir cydnabyddiaeth nad yw'r ffitiadau hyn ar eu pennau'u hunain o bosibl yn gyfrifol am gyfran fawr o'r dŵr a ddefnyddir ym mhob adeilad annomestig. Serch hynny, byddai'n anodd rheoleiddio'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prosesau gan y gallai hynny effeithio ar y broses weithgynhyrchu neu'r broses ddiwydiannol berthnasol. Roedd y cynigion ar gyfer y defnydd o ddŵr annomestig felly yn diystyru cyflwyno camau i reoleiddio dŵr a ddefnyddir mewn prosesau ar y sail hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cyfathrebu'r gofynion newydd hyn yn effeithiol i'r bobl berthnasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn ystyried opsiynau addas i sicrhau bod gwybodaeth am bob rheoliad newydd a'r rheoliadau a ddiwygir yn cael ei chyfathrebu i'r partion perthnasol.

Crynodeb a'r camau nesaf

Domestig:

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â'r targedau i arbed dŵr mewn eiddo preswyl. Roedd ambell ymatebwr, fodd bynnag, yn credu nad oedd angen cyflwyno'r camau hyn yn sgil y ffaith nad oes prinder dŵr yng Nghymru.

Roedd sawl un yn cwestiynu'r mathau o ffitiadau sydd i'w cynnwys yn y cynigion ar gyfer anheddau (y dull ffitiadau), sef yn benodol pam fod peiriannau golchi dillad a pheiriannau golchi llestri wedi'u hepgor. Gan hynny, rydym bellach yn bwriadu cyflwyno'r gofynion hyn fel rhan o'r dull ffitiadau.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gallai cynnwys pedwar opsiwn gwahanol ar gyfer cydymffurfio gymhlethu pethau ac achosi dryswch, ac felly bydd dau opsiwn ar gyfer cydymffurfio yn cael eu creu a'u dewis ar gyfer y Ddogfen Gymeradwy derfynol.

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion y dylai'r gyfrifiannell dŵr allu cydnabod pan fydd dŵr allanol yn cael ei storio, ond rydym yn deall y pryderon sydd wedi'u mynegi yn ystod yr ymgynghoriad (er enghraifft, y gallai hyn ddod yn fater o dicio blwch). Y casgliad oedd na fyddwn yn bwrw ymlaen ar hyn o bryd i gyflwyno cymal o'r fath yn y rheoliad.

Annomestig:

Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn cytuno â'r cynigion ynghylch eiddo annomestig, gyda nifer yn cyfeirio at y ffaith y dylai fod cysondeb rhwng eiddo domestig ac eiddo annomestig. Ar sail yr adborth hwn, mae'n ymddangos mai'r targedau estynedig y cyfeiriwyd atynt fel rhan o'r cynnig oedd yr opsiwn a gâi ei ffafrio, ac felly'r bwriad yw cyflwyno'r targedau estynedig wrth ddiwygio Dogfen Gymeradwy G yn derfynol.

Adeiladau presennol/newid defnydd:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno na ddylid cyflwyno gofynion ychwanegol ar gyfer arbed dŵr yn achos adeiladau sy'n destun newid defnydd sylweddol na phan fydd ffitiadau yn cael eu hadnewyddu. Felly, yn unol â'r cynnig yn yr ymgynghoriad, nid ydym yn bwriadu newid y gofynion presennol yn y meysydd hyn.

Gwybodaeth ar gyfer y defnyddiwr

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cynigion ynglŷn â rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr, yn debyg i rai agweddau ar y Cod Cartrefi Cynaliadwy a chredyd Darparu Gwybodaeth i Ddefnyddwyr BREEAM, ar ffurf canllawiau yng Nghanllawiau Statudol Cymeradwy Rheoliadau Adeiladu (Dogfennau Cymeradwy) Cymru.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, ar gyfer cwestiynau 29-35, dim ond yr ymatebion hyn yr ydym wedi'u hystyried wrth bennu canrannau cyffredinol yr ymatebwyr. Gwnaethom hyn oherwydd ein bod yn sylweddoli bod y rhan fwyaf o'r cwestiynau a adawyd yn wag wedi'u gadael yn wag oherwydd nad oedd y bobl yr ymgynghorid â hwy'n ymwneud â maes gwybodaeth i ddefnyddwyr, neu oherwydd nad oedd ganddynt ddiddordeb neu arbenigedd yn y maes ond eu bod yn hytrach wedi ymateb i weddill ymgynghoriad mwyn cynnig sylw am bwnc arall.

Isod, rhoddir manylion yr ymatebion penodol i bob un o gwestiynau'r cynnig yr ymgynghorid yn ei gylch gyda golwg ar gynnwys darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr yn y canllawiau. Yn yr adran a ganlyn, ar ôl crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rhoddir ymateb y llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a hefyd rhoddir braslun o'r camau nesaf.

Roedd C29 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno bod angen i Fentrau Bach a Chanolig roi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr eiddo domestig.

- a. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (80%) o blaid hyn. Ymhlith y rheini a gytunai, roedd ystod o sectorau'r diwydiant, ac roedd y rheini a anghytunai'n cynnwys Cyrff Rheoli Adeiladu ac un Adeiladwr Tai (roedd Adeiladwr Tai arall a ymatebodd yn cytuno).
- b. Dywedodd bron pob ymatebydd a roddodd sylwadau am y cwestiwn fod gwybodaeth yn bwysig i ddefnyddwyr, yn enwedig gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cartref.
- c. Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno y gallai hyn gael effaith niweidiol ar amgylchedd busnes Adeiladwyr Tai sy'n Fentrau Bach a Chanolig. Peth arall a oedd yn poeni rhai oedd bod pecynnau gwybodaeth yn aml yn rhy gymhleth.
- d. Dywedodd sawl ymatebydd na ddylid cyfyngu hyn i Fentrau Bach a Chanolig yn unig ond y dylai fod yn berthnasol i bob datblygwr tai, ni waeth am eu maint. Argymhelliad un ymatebydd oedd y dylid adolygu pa mor addas yw'r wybodaeth a ddarperir gan y cwmnïau mawr sy'n Adeiladu Tai.
- e. Dywedodd llawer fod y math o wybodaeth (sef gwybodaeth gynhwysfawr a phenodol) a'r fformat a ddefnyddir yn bwysig er mwyn sicrhau bod perchennog tŷ yn cael gwybodaeth werthfawr.

Roedd C30 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno mai cynghori yn hytrach na

rheoleiddio fyddai'r llwybr gorau i'w ddilyn er mwyn annog pobl i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr.

- a. Unwaith eto, roedd mwyafrif yr ymatebion (77%) o blaid y penderfyniad i ddilyn y llwybr cynghori yn hytrach na rheoleiddio. Yn yr un modd ag yn C29, roedd y ddau Gorff Rheoli Adeiladu'n anghytuno a hefyd aelod o gynlluniau personau cymwys, dylunydd/peiriannydd ac ymatebydd unigol.
- b. Mae'r rheini sydd o blaid yn dweud y bydd canllawiau'n annog adeiladwyr tai i ddarparu Canllawiau i Ddefnyddwyr Tai ac y byddai'r llwybr rheoleiddio'n pwysu'n drwm ar adnoddau.
- c. Y sylw pennaf gan y rheini a oedd yn anghytuno oedd, os nad oedd hyn yn orfodol, yna na fyddai gwybodaeth yn cael ei darparu, gan ddweud mai rheoleiddio yw'r unig ffordd o sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n gyson.
- d. Dyma rai o'r sylwadau eraill:
 - i. Dylid ystyried darparu gwybodaeth ar gyfer ôl-osod adeiladau sy'n bodoli eisoes (er enghraifft gwybodaeth am osodiadau a chamau newydd i arbed ynni) ond roedd hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.
 - ii. Argymhellwyd y gallai Canllawiau i Ddefnyddwyr Tai fod yn rhan o'r broses drawsgludo wrth werthu eiddo.
 - iii. Dylid gwneud gwaith monitro i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a hawdd cael gafael arni'n cael ei darparu. Os bydd y llwybr canllawiau'n aneffeithiol, dylai'r llywodraeth ystyried cyflwyno'r gofynion drwy reoleiddio.

Roedd C31 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai creu canllaw ar ffurf templed yn help i Fentrau Bach a Chanolig ac yn gwella cysondeb ac ansawdd y wybodaeth a roddir i'r defnyddiwr.

- a. Roedd yr ymatebwyr i gyd (100%) yn cytuno â darparu canllaw ar ffurf templed.
- b. Dyma rai o'r prif sylwadau a gafwyd:
 - i. Byddai templed yn golygu y gallai'r wybodaeth fod ar gael yn fwy hwylus i ddefnyddwyr.
 - ii. Byddai canllawiau da a chlr yn annog mwy o bobl i'w defnyddio.
 - iii. Ni ddylai'r canllawiau fod yn rhy gaeth a dylent ganiatáu ar gyfer arloesi.
 - iv. Dylid cymryd camau i sicrhau bod Mentrau Bach a Chanolig yn ymwybodol bod templed ar gael.

- v. Ni ddylai'r wybodaeth fod ar gael ar ffurf ddigidol yn unig. Dylai fod yn ofynnol darparu copïau ar bapur hefyd.
- c. Argymhellir y dylid rhannu'r templed yn ddwy ran; byddai rhan un yn cynnwys y wybodaeth orfodol sy'n cael ei rheoli'n uniongyrchol gan y datblygwr; byddai rhan dau yn wirfoddol ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol arall am yr ardal ehangach.

Roedd C32 yn gofyn a oedd ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys y pynciau a nodwyd mewn unrhyw dempled posibl yn y Canllawiau i Ddefnyddwyr Tai.

- a. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (90%) o blaid y pynciau a nodwyd.
- b. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bynciau eraill na ddylid eu cynnwys yn y templed Canllawiau ar gyfer Defnyddwyr Tai, gan gynnwys: cyfleusterau casglu ac ailgylchu'r awdurdod lleol.
- c. Argymhellir y dylid darparu gwybodaeth drwy ddefnyddio dolenni i gyfeirio at safleoedd priodol lle mae rhagor o wybodaeth ar gael.
- d. Yn ogystal â'r pynciau a nodwyd yn yr ymgynghoriad, cynigiodd ymatebwyr eraill y dylid cynnwys y pynciau hyn:
 - i. Manylion a gwybodaeth gysylltu'r cwmni a adeiladodd yr eiddo
 - ii. Gwybodaeth am warant - gan bwy, am faint a beth mae'n ei gynnwys
 - iii. Eitemau'r fanyleb fewnol ac allanol - brics, teils to, gosodion y gegin a'r ystafell ymolchi ac ati.
 - iv. Llawlyfrau ar gyfer offer a osodwyd - boeler, popty, peiriant golchi ac ati
 - v. Gwybodaeth am y broses symud/cyfreithiol wrth brynu cartref newydd.
 - vi. Byw mewn tŷ sydd wedi'i godi o'r newydd a'i gynnal a'i gadw - canllawiau a chyngor
 - vii. Darparwyr cyfleustodau a darllen mesuryddion am y tro cyntaf/cyfeirnodau
 - viii. Gwybodaeth am ynni gan gynnwys gwybodaeth am y Gwasanaeth Cyngor am Arbed Ynni EST
 - ix. Agweddau ar 'gyfforddusrwydd' y cartref
 - x. Systemau diogelwch (Rhan Q)
 - xi. Sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)
- e. Argymhellir y dylai gwybodaeth ddylunio a gynhwysir mewn templed gael

ei gwirio gan gyrff ardystiedig sy'n gyfarwydd â'r safonau ar gyfer fformatau gwybodaeth hygyrch.

Roedd C33 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru sef na fyddai'n ymarferol creu templed Canllawiau i Ddefnyddwyr Adeiladau oherwydd bod adeiladau annomestig yn amrywio o ran eu maint ac o ran y ffordd y maent yn cael eu defnyddio.

- a. Roedd bron pob ymatebydd (95%) yn cytuno.
- b. Y prif sylwadau a roddwyd oedd bod gwybodaeth yn cael ei darparu eisoes drwy ddulliau eraill, megis Rheoliad 38, llawlyfrau O&M, ac na fyddai Canllawiau ychwanegol i Ddefnyddwyr Adeiladau'n ychwanegu fawr ddim o werth at y sector.
- c. Dywedodd yr unig ymatebydd a anghytunai fod sefyllfa'r farchnad ddomestig yn debyg.

Roedd C34 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru fod digon o wybodaeth yn cael ei darparu eisoes ar gyfer defnyddwyr adeiladau annomestig.

- a. Roedd y rhan fwyaf helaeth o ymatebwyr (93%) yn cytuno bod digon o wybodaeth ar gael ar gyfer adeiladau annomestig.
- b. Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd gan y rhai a gytunai:
 - i. Mae digon o ddeddfwriaeth a chanllawiau ar wahân ar gyfer y sector.
 - ii. Mae hyn eisoes yn rhan o drefn sefydledig a disgwylidig comisiynu adeiladau.
- c. Roedd yr ymatebydd a oedd yn anghytuno'n teimlo nad oes digon o wybodaeth am systemau llai megis sut mae drysau'n cau, cloeon a bachau ffenestri.

Roedd C35 yn gofyn a oedd ymatebwyr yn credu y gallai'r drefn modelu gwybodaeth am adeiladau (BIM) o bosibl gynnig ateb o ran darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr.

- a. Yn gyffredinol roedd cefnogaeth gref o blaid (89% yn cytuno) defnyddio BIM.
- b. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o fanteision cynnwys BIM, yn eu plith:
 - i. Byddai'n rhwydd dynodi deunyddiau (yn enwedig gwydro'r ffasâd)
 - ii. Byddai'n rhwydd diweddarau gwybodaeth drwy gydol oes yr adeilad, o'r cyfnod adeiladu drwodd i'r cwblhau a'r ôl-osod/addasiadau diweddarach.

- iii. Byddai gwybodaeth yn cael ei chadw'n ganolog.
- c. Dyma ambell sylw arall gan ymatebwyr a oedd o blaid hyn:
 - i. Byddai angen tystiolaeth er mwyn deall y goblygiadau o ran costau.
 - ii. Mae BIM yn fwy addas ar gyfer adeiladau annomestig ond nid yw'n briodol ar gyfer perchnogion tai.
- d. Roedd y rhai a oedd yn erbyn defnyddio BIM yn dweud nad oedd yn briodol defnyddio'r drefn hon ar hyn o bryd. Er hynny, dywedodd rhai ymatebwyr a oedd yn cytuno y gellid defnyddio BIM y gallai fod yn fwy ymarferol ei roi ar waith yn y dyfodol ond nad yw'r farchnad yn barod ar hyn o bryd.

Ymateb y Llywodraeth, crynodeb a'r camau nesaf

Yn gyffredinol, roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy'n cytuno â'r cynigion ynglŷn â darparu gwybodaeth, a bod angen i Fentrau Bach a Chanolig yn benodol roi rhagor o fanylion ynglŷn â datblygiadau domestig. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno'n dweud bod y pecynnau gwybodaeth eisoes yn gymhleth ac y byddai'r cynnig hwn yn gwneud yr hinsawdd fusnes yn waeth i Fentrau Bach a Chanolig.

Fel y nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghori, gallai prosesau gwaith papur ychwanegol roi pwysau ar fusnesau llai; serch hynny, dylid nodi y bydd canllawiau a thempledi ar gael yn gefn i'r cynigion er mwyn hwyluso'r broses hon. Credir hefyd y bydd manteision rhoi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr yn gwrthbwysu unrhyw fân effeithiau ar Fentrau Bach a Chanolig, fel y dangoswyd yn y gefnogaeth sylweddol a gafwyd gan y bobl yr ymgynghorwyd â hwy i'r cynnig.

Canfu gwaith ymchwil blaenorol fod Mentrau Bach a Chanolig yn defnyddio dull llai cyson o roi gwybodaeth i ddefnyddwyr. Credir hefyd fod angen rhagor o ddeunyddiau, canllawiau a thempledi i'w helpu i baratoi wrth gynhyrchu'r gwaith papur hwn. Serch hynny, bydd canlyniad hyn ar gael i gwmnïau o bob maint. Derbyniwyd pecynnau gwybodaeth cwmnïau mawr yn y maes adeiladu tai wrth gynnal yr adolygiad. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn cynnig gwybodaeth gryno, hawdd ei dilyn. Serch hynny, roedd y cynnwys yn aml yn brin o fanylion penodol i roi gwybod i ddefnyddwyr am swyddogaethau cynaliadwy cartref penodol.

Er y byddai "Canllawiau i Ddefnyddwyr Tai" yn ddefnyddiol wrth drosglwyddo eiddo, ni chredir ei bod yn ymarferol ar hyn o bryd inni gynnwys unrhyw Ganllawiau o'r fath yn y dyfodol fel rhan o'r broses drawsgludo.

Ar hyn y bryd, rhagwelir y bydd templed y Canllawiau i Ddefnyddwyr Tai'n ddogfen ganllaw, er bod lleiafrif y rhai yr ymgynghorwyd â hwy'n meddwl y byddai llwybr gorfodol yn fwy effeithiol o ran sicrhau bod pobl yn defnyddio'r canllawiau hyn. Bwriedir adolygu faint sy'n defnyddio'r Canllawiau ar ôl eu rhoi ar waith ar y ffurf hon er mwyn pwysu a mesur a fyddai llwybr rheoleiddio o fudd.

Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy'n cytuno i raddau helaeth y byddai Canllaw ar ffurf templed yn help i Fentrau Bach a Chanolig ac y byddai'n cynnig rhestr o bynciau y gellid eu cynnwys. Bydd yr adborth gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â'r pynciau y gellid eu cynnwys yn y templed posibl yn cael ei ystyried wrth ei greu. Rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw perfformiad ym maes ynni a bydd hwn yn bwnc pwysig i'w ystyried. Cydnabyddir hefyd y dylid ystyried y safonau rheoleiddiol a ddilynwyd wrth godi tŷ (e.e. Rhan L1A 2010).

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y gallai BIM fod yn ateb posibl, ond, dywedwyd hefyd na fyddai hyn o bosibl mor briodol ar gyfer adeiladau domestig neu Fentrau Bach a Chanolig ar hyn o bryd.

Ar sail yr ymatebion a gafwyd, bwriedir datblygu templed Canllawiau i Ddefnyddwyr Tai i'w ddefnyddio'n wirfoddol. Bwriedir adolygu i ba raddau mae'n cael ei fabwysiadu'n ddiweddarach.

Wrth ddatblygu'r templed, dyma'r pethau a ystyrir:

- Dylid datblygu'r templed ar fformat addas sy'n golygu bod modd i wybodaeth fod ar gael yn hwylus i ddefnyddwyr.
- Dylid ystyried eto y pynciau eraill y dylid eu cynnwys mewn templed Canllawiau i Ddefnyddwyr Tai domestig, er enghraifft:
 - a. Manylion a gwybodaeth gyswllt y cwmni a gododd yr eiddo;
 - b. Gwybodaeth am warant - gan bwy, am faint a beth mae'n ei gynnwys;
 - c. Eitemau'r fanyleb fewnol ac allanol - brics, teils to, gosodion y gegin a'r ystafell ymolchi ac ati;
 - d. Llawlyfrau ar gyfer yr offer a osodwyd - boeler, popty, peiriant golchi ac ati;
 - e. Byw mewn cartref sydd wedi'i godi o'r newydd a'i gynnal a'i gadw - canllawiau a chynghor;
 - f. Darparwyr cyfleustodau a darllen mesuryddion am y tro cyntaf/cyfeirnodau;
 - g. Gwybodaeth am ynni gan gynnwys ffynonellau cynghor (Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Cymru Effeithlon);
 - h. Agweddau ar 'gyfforddusrwydd' y cartref;
 - i. Systemau diogelwch (Rhan Q);
 - j. Sgôr EPC;
 - k. Profion Nwy Radon.

O ran y sector annomestig, nid yw'n fwiad cyflwyno dim newidiadau i'r "Wybodaeth ar gyfer y Defnyddiwr".

Rhan Q - Diogelwch Preswyl

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno safon ddiogelwch orfodol i wella diogelwch tai preswyl yng Nghymru. Yn ystod yr ymgynghoriad, ystyriwyd i ddechrau a oedd angen cyflwyno safon ddiogelwch orfodol, ac, os felly, beth fyddai'r dull mwyaf cost-effeithiol o roi'r safon ar waith mewn datblygiadau newydd.

Seiliwyd y safon orfodol ar ddarpariaethau Safon Brydeinig PAS 24, y safon sydd wedi'i hen sefydlu yn y diwydiant sy'n pennu'r safonau ar gyfer drysau a ffenestri, gan gynnwys profion a manylebau ar gyfer cloeon yn ogystal â phrofi cadernid y drysau a'r ffenestri eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried cyflwyno safon orfodol drwy Reoliadau Adeiladu i dargedu caledu ffenestri a drysau anheddau newydd.

Ar hyn o bryd, nid oes dim gofynion yn y Rheoliadau Adeiladu sy'n ymwneud â diogelwch preswyl. Serch hynny, mae Deddf Adeiladu (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at y diben hwn.

Roedd C19 yn gofyn a yw'r ymatebwr yn meddwl bod arfer presennol y diwydiant yng Nghymru gyda golwg ar ffenestri, drysau a chloeon mewn anheddau newydd yn ddigon i fynd i'r afael â diogelwch preswyl yng Nghymru.

- a. Dim ond 10% o ymatebwyr a oedd yn cytuno bod arferion presennol y diwydiant yng Nghymru'n ddigonol i fynd i'r afael â diogelwch preswyl. Teimlai 55% fod angen rhagor o ganllawiau, ac fe ddewisodd 35% beidio ag ateb y cwestiwn hwn.
- b. Roedd un ymatebydd yn teimlo y bydd gwella safonau'n gostwng nifer y troseddau yng Nghymru ac y byddai hynny'n golygu ei bod yn llai tebygol o fod yn fan lle bydd pobl yn cael gwared ar ddrysau a ffenestri is eu safon.
- c. Un o'r gofynion y mae'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gadw ato wrth ddatblygu tai newydd yw Diogelu drwy Ddylunio. Serch hynny, nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i ddatblygwyr preifat.
- d. Ar hyn o bryd yng Nghymru, drwy gyfrwng Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector rhentu cymdeithasol, rhaid i'r drysau a'r ffenestri a ddarperir ac a osodir mewn datblygiadau sy'n cael arian grant gyrraedd safonau Diogelu Drwy Ddylunio, er enghraifft, PAS 24 2016 neu safon gyfatebol.

Ymateb y Llywodraeth

Ystyriodd Llywodraeth Cymru'r ymatebion ac nid oedd wedi'i argyhoeddi gan y dadleuon yn erbyn cyflwyno safon orfodol i wella diogelwch tai preswyl yng Nghymru. Teimlai'r rhan fwyaf a ymatebodd i'r cwestiwn hwn fod angen gwella eto ar arferion presennol y diwydiant.

Roedd C20 yn gofyn i'r ymatebwyr, ac ystyried y newidiadau diweddar i ddiogelwch preswyl yn Lloegr, y safonau ar hyn o bryd yn yr Alban a'r Gymeradwyaeth Adeiladu Genedlaethol - Diogelu drwy Ddylunio, a oeddent yn meddwl ei bod yn ddigon i Lywodraeth Cymru gynnig canllawiau ynglŷn â diogelwch tai preswyl heb gyflwyno safon orfodol.

- a. O blith yr ymatebwyr, dim ond 10% a oedd yn cytuno y dylid darparu canllawiau ar gyfer diogelwch preswyl yn hytrach na rhoi safon ddiogelwch newydd ar waith. Teimlai 65% nad oes angen rhagor o ganllawiau oherwydd y byddai hynny'n debygol o achosi dryswch yn y diwydiant. Dewisodd 26% beidio ag ateb y cwestiwn hwn.
- b. Nid yw canllawiau'n orfodol, ac felly, fe allai sefydliadau eu hanwybyddu.
- c. Dylai safon ofynnol fod ar waith i'w dilyn gan bob agwedd ar y diwydiant adeiladu.
- d. Oni chyflwynir safonau gofynnol, mae perygl y bydd llawer o adeiladwyr tai'n dal i osod drysau a ffenestri o safon wael.
- e. Ar safle lle y bydd gofyn i ddatblygwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon Diogelu drwy Ddylunio mewn tai cymdeithasol, byddant yn aml yn darparu cynnyrch is ei safon ar weddill y safle. Bydd canllawiau ynglŷn â lefelau diogelwch gofynnol a gymeradwyir gan yr heddlu'n aml yn cael eu hanwybyddu os nad oes yn rhaid i ddatblygwyr gydymffurfio â'r safonau.

Ymateb y Llywodraeth

Teimlai ymatebwyr na fyddai cyflwyno canllawiau yn hytrach na newid y ddeddfwriaeth yn gwella arferion presennol y diwydiant ac felly na fydd Llywodraeth Cymru'n ceisio datblygu canllawiau y tu hwnt i'r canllawiau a gyflwynid o fewn Dogfennau Cymeradwy Q a fydd yn cyd-fynd ag unrhyw safon orfodol a gyflwynir drwy ddeddfwriaeth i wella diogelwch preswyl yng Nghymru.

Roedd C21 yn gofyn i ymatebwyr, ac ystyried bod llai o dorri i mewn a dwyn o gartrefi erbyn hyn, a ydynt yn cytuno bod angen safon orfodol yng Nghymru ar gyfer ffenestri a drysau i anheddau newydd.

- a. O blith yr ymatebwyr, roedd 68% yn cytuno y dylid cyflwyno safon ddiogelwch orfodol yng Nghymru ar gyfer anheddau newydd, 10% nad oedd safon yn angenrheidiol, ac fe ddewisodd 23% beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.
- b. Bwriad safon ddiogelwch orfodol ar gyfer ffenestri a drysau anheddau newydd yng Nghymru yw helpu i atal torri i mewn a dwyn, ond mae hefyd wedi arwain at fanteision anfwriadol o ran amddiffyn pobl sy'n wynebu troseddau casineb.
- c. Canlyniad ei gwneud yn fwy anodd i leidr fynd i mewn i eiddo yw ei bod hi'n anos hefyd i droseddwyr a phobl dreisgar o fathau eraill fynd i mewn i gartrefi heb ganiatâd.

- d. Dylid cadw'r safonau gorfodol oherwydd eu bod yn gallu amddiffyn grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf, er enghraifft yr henoed neu'r rhai sydd â rhyw fath o anabledd.

Ymateb y Llywodraeth

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn dangos, ar sail yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn, fod gofyn cyflwyno safon ofynnol yng Nghymru ar gyfer diogelwch preswyl. Wrth ystyried yr ymatebion nid oedd Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi bod dadl yn erbyn cyflwyno safon orfodol i wella diogelwch tai preswyl yng Nghymru.

Roedd C22 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno mai'r dewis gorau yw cyflwyno safon orfodol drwy gyfrwng y Rheoliadau Adeiladu.

- a. O blith yr ymatebwyr, roedd 71% yn cytuno mai'r ffordd fwyaf priodol a synhwyrol o gyflwyno safon ddiogelwch orfodol oedd drwy'r Rheoliadau Adeiladu. Credai 6% nad oedd angen yr opsiwn hwn, ac fe ddewisodd 23% beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.
- b. Bydd gweithwyr proffesiynol yn aml yn cyfeirio at Reoliadau Adeiladu yn hytrach nag at fathau eraill o ddeddfwriaeth y tu allan i Reoliadau Adeiladu.
- c. Mae'n bwysig sicrhau cysondeb drwy'r Deyrnas Unedig. Er mwyn sicrhau ateb llai costus, mae angen pennu opsiynau a dderbynnir ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig yn hytrach na theilwra atebion gwahanol ar gyfer pob gwlad unigol.
- d. Dylai gofynion diogelwch ffurfio rhan o'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn sicrhau cysondeb i bawb sy'n berchen ar dŷ, gan adeiladu pob tŷ newydd yn unol â'r un safonau diogelwch. Bydd hyn yn galluogi gweithgynhyrchwyr i gyflenwi cynnyrch tebyg i bob gwlad yn y Deyrnas Unedig, gan ddilyn yr un gofynion.

Ymateb y Llywodraeth

Wrth gytuno â'r cynigion ar gyfer safon orfodol o dan gwestiwn 21, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cyflwyno safon orfodol drwy gyfrwng rheoliadau adeiladu. Lle nad oedd pobl o blaid defnyddio rheoliadau adeiladu'n opsiwn deddfwriaethol, ni chynigiwyd dewis amgen ac felly, nid oedd y Llywodraeth wedi'i hargyhoeddi bod dadl yn erbyn cyflwyno safon orfodol i gryfhau diogelwch preswyl yng Nghymru.

Roedd C23 yn gofyn i'r ymatebwyr os nad oes angen safon orfodol, pa anawsterau y maent yn meddwl y bydd adeiladwyr tai'n eu hwynebu os bydd gofyn iddyllyn ddilyn gwahanol safonau pan fyddant yn gweithio ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

- a. Bydd datblygwyr yn wynebu gwahaniaeth yn safonau rheoliadau adeiladu a allai arwain at oblygiadau o ran costau.

- b. Mae angen sicrhau cysondeb trawsffiniol o ran safonau a rheoleiddio oherwydd fe gaiff hyn ddylanwad sylweddol ar gwmnïau sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol ac ar y gadwyn gyflenwi.
- c. Bydd safonau amrywiol yn cynyddu'r costau ond mae Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai (HBF) serch hynny'n awgrymu mai bach fydd yr effaith ar adeiladwyr mawr, er y gallai'r effaith ar Fentrau Bach a Chanolig fod yn fwy.
- d. Ar ôl i'r stoc dai bresennol ddirywio, efallai y bydd y cwmnïau adeiladu mwy sy'n codi tai'n gweld hyn yn gyfle i wella safonau er mwyn sicrhau eu bod yn mynd ati mewn ffordd gyson i ddylunio'u holl eiddo.

Ymateb y Llywodraeth

Teimlai'r ymatebwyr y gallai fod goblygiadau ar gyfer costau uwch yng Nghymru ac y byddai ymagwedd wahanol at safonau a rheoliadau'n cael effaith fwy ar Fentrau Bach a Chanolig yng Nghymru. Byddai cyflwyno safon orfodol, yn unol â honno a gyflwynwyd eisoes yn Lloegr ar gyfer mynediad heb ganiatâd, yn cadw lefel o gysondeb i gwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr.

Roedd C24 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â chynnwys goleuadau diogelwch allanol yn rhan o'r safon ofynnol.

- a. O blith yr ymatebwyr, roedd 45% yn cytuno y dylid cynnwys goleuadau diogelwch allanol yn y safon orfodol. Roedd 23% yn meddwl nad oedd angen yr opsiwn hwn oherwydd diffyg tystiolaeth ystadegol fod goleuadau ychwanegol yn lleihau troseddau. Dewisodd 32% beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.
- b. Mae amrywiadau yn y rheoleiddio'n arwain at anawsterau o ran cydymffurfio. Dylai'r gofynion drwy'r Deyrnas Unedig fod yn gyson.
- c. Nid yw goleuadau gorfodol ar y wal sydd â mynediad i'r tu allan yn cyfrannu at ddiogelu tŷ rhag lladron nac at ddiogelwch ffisegol yr adeilad.
- d. Gallai cynnwys goleuadau yn y safon orfodol hwyluso pethau i bobl sydd â nam ar eu golwg.
- e. Dylid ymgynghori rhagor â sefydliadau sydd â gwybodaeth arbenigol am hygyrchedd a nam ar y golwg ynglŷn â manylion y cynnig yn yr ymgynghoriad.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r tîm Rheoliadau Adeiladu wedi cynnal trafodaethau mewnol ag adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru megis tîm Safonau Ansawdd Tai Cymru a'r tîm Ansawdd Amgylcheddol Lleol i ystyried y sylwadau a'r ystyriaethau ynghylch goleuadau allanol. Ar sail canlyniad y trafodaethau, mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â rhanddeiliaid allanol megis Diogelu drwy Ddylunio a'r RNIB.

Roedd C25 yn gofyn i ymatebwyr ystyried a oes unrhyw elfennau eraill y dylid eu hystyried yn rhan o'r safon orfodol megis ardystio trydydd parti.

- a. O blith yr ymatebwyr, roedd 26% yn cytuno y dylid ystyried ardystio trydydd parti yn rhan o'r safon orfodol, teimlai 42% nad oedd angen yr opsiwn hwn, ac fe ddewisodd 32% beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.
- b. Teimlai ymatebwyr na ddylai Llywodraeth Cymru gynnwys ardystiad trydydd parti yn safon orfodol oherwydd y gallai hyn gynyddu costau yn sgil diffyg dewis yn y farchnad.
- c. Awgrymodd ymatebwyr eraill fod ardystio trydydd parti'n ffordd o sicrhau bod rhywun yn cydymffurfio gyda golwg ar ystod o'r cynhyrchion a gyflenwir. Serch hynny, fe allai hyn gyfyngu ar arloesi oherwydd na fyddai deunyddiau a chynhyrchion newydd yn gallu cydymffurfio nes iddynt gael eu cynnwys o fewn y safonau.
- d. Mae gwrthwynebiad wedi bod erioed i drefn orfodol ar gyfer ardystio trydydd parti mewn dogfennau cymeradwy.
- e. Awgrymwyd bod angen i'r tîm Rheoliadau Adeiladu ystyried cynnwys larymau lladron fel rhan o'r safon orfodol.
- f. Mae ardystio trydydd parti'n sicrhau bod drysau a ffenestri'n cael eu gweithgynhyrchu'n gywir a bod prosesau'n cael eu harchwilio. Mae'r heddlu wedi awgrymu yn y gorffennol y gallai gadael i'r diwydiant adeiladu ei ardystio'i hun arwain at osod cynnyrch is-safonol.
- g. Gallai ardystio trydydd parti fod yn broses ddrud ac fe gâi hyn effaith niweidiol ar Fentrau Bach a Chanolig o ran gwasanaethu'r farchnad.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes digon o dystiolaeth sy'n dweud y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ardystio trydydd parti yn rhan o'r safon orfodol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y ddeddfwriaeth bresennol fel y'i mabwysiadwyd yn Lloegr yn ddigonol. Os cyflwynir ardystio trydydd parti, gallai hyn roi baich ariannol ar y diwydiant.

Roedd C26 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno y bydd grymoedd y farchnad ar gyfer eiddo sy'n cael ei adeiladu o'r newydd yn llywio'r farchnad adnewyddu ac yn annog gweithgynhyrchwyr i ddechrau datblygu'r newidiadau wrth ddatblygu cynhyrchion a manylebau ar gyfer diogelwch preswyl.

- a. O blith yr ymatebwyr, roedd 42% yn cytuno y dylai gweithgynhyrchwyr ddechrau datblygu a chynnwys y newidiadau wrth ddatblygu cynhyrchion a manylebau ar gyfer diogelwch preswyl gan sicrhau bod safon yn cael ei chynnal. Roedd 26% yn anghytuno â'r opsiwn hwn, ac fe ddewisodd 32% beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.
- b. Er y byddai hyn yn cryfhau'r ymwybyddiaeth yn y farchnad adnewyddu, roedd rhai

ymatebwyr yn poeni na ellid gwarantu bod y cynnyrch yn gynnyrch o'r un ansawdd â hwnnw sy'n bodoli'n barod.

- c. Os cyflwynir rheoliadau yn y sector adeiladau newydd, lle nad oes gofyn ôl-osod, gall y farchnad droi'n faes dympio i gynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol.
- d. Os na roddir safon orfodol ar waith, ni fydd pob datblygwr yn cynnal safonau uchel os caiff hyn effaith sylweddol ar elw.
- e. Dylai'r defnyddiwr fod yn ymwybodol o wella safonau eiddo sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd a'r manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynnych. Bydd hyn yn creu disgwyliad yn y farchnad adnewyddu lle bydd disgwyl i ddefnyddwyr weld yr un cynhyrchion yn cael eu gweithgynhyrchu hyd at yr un safonau.
- f. Gellid cyflwyno astudiaeth brawf i asesu'r farchnad adnewyddu er mwyn penderfynu a gedwir at y safonau.

Ymateb y Llywodraeth

Yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y farn yn amrywio ynglŷn ag a fyddai'r gofynion ar gyfer y farchnad adeiladau newydd yn llywio'r farchnad adnewyddu. Pe na bai safon yn cael ei chyflwyno ar gyfer y farchnad adnewyddu, yna, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai ddod yn faes dympio i gynhyrchion nad ydynt yn bodloni'r safonau ar gyfer adeiladau newydd. Teimlid y byddai angen i Lywodraeth Cymru gynnal rhagor o astudiaethau a phrofi'r farchnad adnewyddu er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno safon orfodol neu beidio, mewn pryd, ar gyfer y farchnad adnewyddu.

Roedd C27 yn gofyn am farn ynglŷn â pha mor ymarferol fyddai rheoleiddio'r sector sy'n adnewyddu ffenestri a drysau, gyda golwg ar safonau diogelwch anheddau sy'n bodoli eisoes.

- a. Mae ymatebwyr wedi awgrymu y gallai hyn i bob golwg fod yn ymarferol; serch hynny, bydd yn effeithio ar gostau defnyddwyr.
- b. Gellid mynd i'r afael â'r broses reoleiddio drwy gynnwys gofyniad i gynnal hunan-ardystiadau o fewn y Cynllun Personau Cymwys sydd ar waith ar hyn o bryd, efallai i oruchwylio'r farchnad adnewyddu.
- c. Petai'r broses hon yn cael ei rhoi ar waith, dylid rhoi digon o amser i gyflwyno'r rheoliadau newydd er mwyn rhoi amser i weithgynhyrchwyr gael amser i ail-ddylunio'u cynnyrch i weddu i ofynion y farchnad.
- d. Mae FENSA ac adrannau rheoli adeiladu eisoes yn cynnwys adnewyddu ffenestri; dyma fyddai'r ateb mwyaf ymarferol oherwydd ni fyddai'n cael llawer o effaith ar gostau ychwanegol.
- e. Dylid ymgynghori rhagor ag arbenigwyr yn y diwydiant.
- f. Mae'r farchnad yn eang ac yn ddarniog iawn, ac mae nifer fawr iawn o fentrau bach

a chanolig yn ei gwasanaethu. Efallai na fyddai'n hawdd iddynt fynd i'r afael â materion megis ardystio trydydd parti.

- g. Efallai y gallai gwneuthurwyr brofi data prawf gwneuthurwyr systemau ond nid ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio cynlluniau ardystio trydydd parti.
- h. Byddai cael rheoliadau sy'n sylweddol wahanol i'w gilydd o fewn y Deyrnas Unedig yn creu dryswch ychwanegol ac fe allai hyn effeithio ar ansawdd y cynhyrchion a gynhyrchir ac a osodir.
- i. Gall defnyddwyr ddewis nodweddion diogelwch os dymunant, gallai gweithgynhyrchwyr eu defnyddio'n bwynt gwerthu unigryw. Pe gorfodid hyn, hysbysid y gofynion diogelwch o fewn y diwydiant drwy gynlluniau hunan-ardystio. Byddai hyn yn gwneud cynlluniau o'r fath yn fwy cymhleth a'r ffordd y gweinyddir anheddau sy'n bodoli eisoes.
- j. Nid yw anheddau'r hynny sydd mewn ardaloedd cadwraeth yn addas ar gyfer gosod ffenestri a drysau modern eu harddull er mwyn iddynt gynnwys nodweddion diogelwch.
- k. Oherwydd oedran rhai o'r anheddau presennol yng Nghymru, dylid gosod yr un lefel o ddiogelwch mewn eiddo sy'n cael ei adnewyddu ag sydd mewn eiddo sy'n cael ei adeiladu o'r newydd, oherwydd y gallai eiddo sy'n heneiddio fod yn fwy deniadol i droseddwyr.

Ymateb y Llywodraeth

Fel oedd yn wir yng Nghwestiwn 26, bydd gofyn ymgynghori rhagor a chynnal astudiaethau gydag arbenigwyr yn y diwydiant i weld beth fyddai'r effaith bosibl ar gostau i ddefnyddwyr a'r diwydiant adnewyddu.

Roedd C28 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno bod angen rheoleiddio safonau diogelwch yn y farchnad adnewyddu.

- a. O blith yr ymatebwyr, roedd 45% yn cytuno y dylid ystyried rheoleiddio'r farchnad adnewyddu, roedd 19% yn anghytuno â'r opsiwn hwn oherwydd anawsterau gorfodi'r drefn, dewisodd 35% beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.
- b. Teimlai ymatebwyr fod angen cael rhyw fath o arfarnu er mwyn sicrhau nad yw ansawdd y cynnyrch adnewyddu'n waeth nag ansawdd y cynnyrch adeiladu o'r newydd lle bydd hynny'n bosibl.
- c. Cydnabyddir bod gan berchnogion tai sy'n cael adnewyddu eu ffenestri a'u drysau yr hawl i ddisgwyl lefelau tebyg o ddiogelwch i'r rheini sy'n byw mewn anheddau sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd.
- d. Er mwyn sicrhau cyn lleied o effaith yn sgil rheoleiddio'r diwydiant a'r baich ar reolaeth adeiladu, gellid estyn cwmpas y cynlluniau Person Cymwys i gynnwys diogelwch.
- e. Dylid ymgynghori rhagor ag arbenigwyr yn y diwydiant.

- f. Bydd eiddo sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd yn cynnwys camau diogelwch cryfach ond byddai angen digon o amser ar y farchnad bresennol i gwmpasu'r cynhyrchion er mwyn iddynt elwa o'r un lefelau o ddiogelwch.
- g. Mae amrywiaeth eang o gynhyrchion yn cael eu cyflenwi yn y farchnad. Byddai'n fuddiol rheoleiddio'r farchnad ond byddai hyn yn anodd iawn ei roi ar waith yn ymarferol.
- h. Dylid ystyried cynhyrchion diogelwch cryfach yn fater o ddewis i ddefnyddwyr.
- i. Ar hyn o bryd mae eiddo niferus lle y gosodir drysau a ffenestri is-safonol wrth iddynt gael eu hadnewyddu. Mae hyn yn golygu bod pobl yn fwy agored i ladron a mathau eraill o drais domestig.

Ymateb y Llywodraeth

Yn debyg i gwestiwn 26 a 27, dylai Llywodraeth Cymru ddechrau cwmpasu'r farchnad adnewyddu gan geisio cyflwyno safon orfodol yng Nghymru. Bydd gofyn ymgynghori rhagor ag arbenigwyr yn y diwydiant i weld beth fydd yr effaith bosibl ar gostau'r diwydiant adnewyddu i ddefnyddwyr. Serch hynny, bydd rhoi safon orfodol ar waith ar gyfer y farchnad adnewyddu yng Nghymru yn sicrhau trefn 'debyg i'w debyg' ar waith wrth adnewyddu drysau a ffenestri ym mhob annedd sy'n bodoli eisoes.

C54 Sylwadau ychwanegol

- a. Gwyddys fod drysau a ffenestri sy'n cyrraedd safonau Diogelwch drwy Ddylunio h.y. PAS 24 2016 neu safon gyfatebol yn gallu gwrthsefyll ymosodiad. Mae Llywodraeth Cymru'n gosod gofyniad ar gyfer drysau a ffenestri mewn datblygiadau tai cymdeithasol a godir o'r newydd yng Nghymru drwy'r Gofynion Ansawdd Datblygu, sef ei bod yn rhaid iddynt gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020.
- b. Nid yw'r darpariaethau trosiannol ar gyfer Dogfen Gymeradwy Q wedi'u cynnwys ar gyfer yr ymgynghori. Nid yw'r cynigion yn dweud yn glir beth yw'r sefyllfa gyda golwg ar newid defnydd sylweddol a'r Ddogfen Gymeradwy.
- c. Consensws cyffredinol yr ymatebwyr yw y dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno safon orfodol ar gyfer diogelwch preswyl yng Nghymru.
- d. Mae un ymatebydd yn argymhell y dylai unrhyw ddarpariaethau fod yn gyson â darpariaethau trosiannol eraill a'u hysbysu'n unol â hynny er mwyn galluogi'r diwydiant adeiladu i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â datblygiadau yn y dyfodol.

Crynodeb a'r camau nesaf

I grynhoi, roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiynau am gyflwyno safon orfodol o blaid gwneud hynny oherwydd bod gofyn gwella eto ar arferion presennol y diwydiant er mwyn lleihau nifer yr achosion lle bydd pobl yn mynd i mewn i eiddo heb ganiatâd. Er bod lleiafrif bach o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu cyflwyno safon orfodol, nid oedd digon o dystiolaeth i awgrymu na ddylid rhoi'r safon ar waith. Dylid cyflwyno unrhyw safon orfodol drwy newid rheoliadau adeiladu drwy ddeddfwriaeth ynghyd â Dogfen

Gymeradwy Ddrafft Q a ddaeth gyda'r ddogfen ymgynghori. Fel y dywedodd yr ymatebwyr, ni fyddai cyflwyno canllawiau anstatudol yn unig heb newid y ddeddfwriaeth yn gwella safonau yng Nghymru.

O ran cyflwyno goleuadau diogelwch/allanol yn rhan o'r safon orfodol, teimlai rhai ymatebwyr fod hyn yn mynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ac, yn wahanol i'r safonau ar gyfer cloeon drysau a ffenestri, y gallai perchennog tŷ adnewyddu'r ffitiad, newid y bwlb neu ddewis peidio â defnyddio'r goleuadau a ddarperid. Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid hyn yn cytuno y gallai atal lladron a fyddai'n gweld eu cyfle i dorri i mewn a bod hyn yn ychwanegiad at wella diogelwch y cartref. Byddai angen cynnwys cyrff allanol megis yr RNIB, gweithgynhyrchwyr goleuadau, a phrofiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer tai cymdeithasol ac felly, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried eto a ddylid rhoi goleuadau diogelwch/allanol ar waith cyn cynnwys hynny'n rhan o'r gofyniad yn Rhan Q.

Roedd cefnogaeth o blaid ystyried adnewyddu ffenestri a drysau yn y dyfodol oherwydd bod y farchnad hon yn fwy na'r farchnad adeiladu o'r newydd, ond ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru'n ystyried rhoi safon ar waith ar gyfer adnewyddu ffenestri a drysau.

Effaith Amgylcheddol Cylch Oes (LCA)

Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r camau arfaethedig nad ydynt yn rhai rheoleiddiol ar gyfer Effaith Amgylcheddol Cylch Oes, fel ffordd o fwrw ymlaen i gyrraedd y safonau a bennir yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy a BREEAM. Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn sôn am yr ymatebion penodol i bob un o'r cwestiynau yn y cynnig a gyflwynwyd wrth ymgynghori ynglŷn ag Effaith Amgylcheddol Cylch Oes.

Roedd C36 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn credu y dylid ystyried labelu cynhyrchion ar sail data LCA.

- a. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y materion sy'n gysylltiedig ag LCA ar hyn o bryd mor sylweddol fel nad yw'n ddymunol gorfodi labelu cynhyrchion ar hyn o bryd.
- b. Dywedodd lleiafrif o'r ymatebwyr yr hoffent weld labelu gorfodol ar gynhyrchion ond ni chynigiwyd rhagor o sylwadau.
- c. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai'r ffactor pwysicaf sy'n cyfyngu ar ddatblygu LCA ar hyn o bryd yw nad oes modd dibynadwy o gymharu cynhyrchion drwy ddefnyddio EPDs.
- d. Roedd cytundeb yn gyffredinol mai'r rheswm dros y diffyg hwn yw'r gwahaniaethau rhwng setiau data a'r diffyg data ynglŷn â chyfnod 'mewn defnydd' yng nghyd-destun adeilad go iawn.
- e. Cytunai un gweithgynhyrchydd nad yw safonau LCA presennol yn ei gwneud yn bosibl cymharu mewn ffordd ddibynadwy rhwng cynhyrchion oherwydd diffyg data 'mewn defnydd' ac anghysonderau rhwng setiau data. Mae'r gweithgynhyrchydd yn cynghori y dylid aros nes bod methodoleg gyson yn cael ei datblygu.
- f. Ystyrir labelu gwirfoddol yn welliant posibl ond nid yw'n datrys y problemau sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â'r diffyg gallu cymharu cynhyrchion. Disgrifiodd un gweithgynhyrchydd y baich a achosir yn sgil y lluo o wahanol gynlluniau a rheoliadau LCA yng ngwahanol Aelod Wladwriaethau, yn enwedig i Fentrau Bach a Chanolig.
- g. Dywedodd cynghrair masnach ei fod yn poeni am y diffyg dealltwriaeth ynglŷn ag LCA sy'n gallu bod yn gamarweiniol i ddefnyddwyr wrth iddynt ddethol deunyddiau.
- h. Dywedodd corff masnach gweithgynhyrchwyr nad yw EPDs yn ystyried y cyd-destun y defnyddir cynnyrch ynddo. Ni fwriedir i EPDs gael eu defnyddio i gymharu cynhyrchion yng nghyd-destun adeilad go iawn. Byddai labelu gorfodol yn arwain defnyddwyr i lunio cymariaethau o'r fath, ac ni fyddai'r rhain ond yn arwain at ganlyniadau camarweiniol. Disgrifiodd

y corff masnach hefyd nifer o faterion a oedd yn gysylltiedig ag EN 15804 ac yn benodol â'r amrywiadau yn y fethodoleg asesu yn ystod y cyfnod diwedd oes. Casgliad y corff masnach oedd y bydd angen mynd i'r afael â'r materion hyn cyn rhoi unrhyw drefn labelu gorfodol ar waith.

- i. Honnodd corff ymchwil fod EPDs ar hyn o bryd yn ddull sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol ar gyfer cyfleu data LCA ac fe anogodd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r EPDs yn y diwydiant adeiladu. Nid oeddent hwy'n poeni am y gallu i gymharu cynhyrchion, anghysonderau rhwng setiau data, diffyg ystyried y cyfnod 'mewn defnydd' na'r anhawster i ddehongli data LCA.

Roedd C37 yn gofyn i ymatebwyr sôn am y manteision masnachol sydd ynghlwm wrth gynnig EPD o'i gymharu â chost cynnal yr asesiad.

- a. Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr nad oeddent yn gweithgynhyrchu'n teimlo bod ganddynt ddigon o brofiad i gynnig sylw am hyn.
- b. Ateb unfrydol yr ymatebwyr a oedd yn gysylltiedig â chyrrff gweithgynhyrchu oedd nad yw manteision masnachol cynnig EPDs yn gwrthbwysu cost cynnal yr asesiad.
- c. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod EPDs yn cael eu defnyddio'n gyffredinol yn rhan o restr wirio wrth gaffael (ymarfer blychau ticio), ni waeth am unrhyw ystyriaeth am berfformiad amgylcheddol.
- d. Mae rhai ymatebwyr i bob golwg yn credu y bydd manteision masnachol yn deillio o ddatblygu system sy'n gallu cymharu cynhyrchion mewn ffordd ddibynadwy.
- e. Ymatebodd gweithgynhyrchydd nad yw'r manteision masnachol yn gwrthbwysu cost datblygu EPD ar hyn o bryd. Prin yw'r ymwybyddiaeth sydd gan ddefnyddwyr unigol o LEED a BREEAM, ac nid yw prosiectau mwy o faint i bob golwg yn hybu'r farchnad ar gyfer EPDs oherwydd mai dim ond fel ymarfer ticio blychau y gofynnir amdanynt.
- f. Cadarnhaodd awdurdod lleol mai ychydig iawn o ddiddordeb sydd gan gwsmeriaid mewn EPDs.
- g. Dywedodd dau gorff masnach hefyd fod EPDs yn aml yn cael eu defnyddio'n rhan o ymarfer blychau ticio.
- h. Credai sefydliad ymchwil BREA fod cynnig EPDs yn cynnig mantais fasnachol sy'n cyfiawnhau'r buddsoddiad.

Roedd C38 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn ymwybodol bod gwelliannau pendant i'r gadwyn gyflenwi gweithgynhyrchydd ar ôl cynnal asesiad cylch oes.

- a. Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt ddigon o brofiad i gynnig sylw.
- b. Roedd rhai ymatebwyr yn credu nad yw LCA fel rheol ond yn cadarnhau'r hyn y mae gweithgynhyrchydd yn ei wybod eisoes am y gadwyn gyflenwi.
- c. Adroddwyd bod LCA ac EPDs yn benodol wedi arwain at well dealltwriaeth o'r effeithiau ar yr amgylchedd; serch hynny, nid ydynt o reidrwydd yn arwain at wella pethau.
- d. Atebodd un gweithgynhyrchydd fod LCA fel rheol yn cadarnhau'r hyn y mae gweithgynhyrchydd yn ei wybod eisoes am eu cadwyn gyflenwi. Honnodd y gweithgynhyrchydd hefyd mai gor-ddweud yn aml yw honni y gellir gwella cadwyn gyflenwi drwy asesu cylch oes.
- e. Dywedodd corff ymchwil y gall LCA fod yn ffordd dda o sylwi ar 'fannau gwan' yn y broses gynhyrchu y gellid eu gwella drwy ddadansoddi. Yn ôl BRE⁴ mae modd trosi'r rhain yn arbedion ariannol mesuradwy.

Roedd C39 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn llwyr ymwybodol o'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â LCA cyn iddynt ddarllen yr adolygiad.

- a. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn llwyr ddeall y cyfyngiadau hyn cyn darllen yr adroddiad. Mae hyn yn cadarnhau'r tybiaethau nad yw LCA a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r drefn yn bethau y mae pobl yn eu deall yn dda.
- b. Pwysleisiodd yr ymatebwyr y byddai'n sicr yn fuddiol i'r diwydiant ddeall LCA yn well.
- c. Roedd cytundeb yn gyffredinol y dylai'r diwydiant geisio sicrhau gwel dealltwriaeth o fanteision data LCA a dulliau digonol o'u defnyddio.
- d. Mae'r ymatebwyr yn sôn yn aml am y risg sy'n gysylltiedig â dehongli data LCA yn anghywir a'u defnyddio mewn ffordd annigonol i gymharu cynhyrchion.
- e. Roedd un gweithgynhyrchydd yn cytuno â'r honiadau yn yr adroddiad adolygu gan bwysleisio bod angen cryfhau'r ymwybyddiaeth o fanteision a chyfyngiadau LCA yn y diwydiant adeiladu.
- f. Soniodd corff masnach am natur arbenigol LCA a'r anhawster wrth drosi'r data'n wybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd.
- g. Cred sefydliad ymchwil BRE⁴ fod gwella safonau LCA a'u deall yn well wedi goresgyn y cyfyngiadau hyn i raddau helaeth.

Roedd C40 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn credu bod angen ymchwilio i ganlyniadau LCA, eu mesur a gwella'u cywirdeb.

- a. Roedd y rhan fwyaf helaeth o'r ymatebwyr yn credu bod angen rhagor o ymchwil i ddangos a mesur manteision LCA.
- b. Mae cytundeb yn gyffredinol y dylid gwneud y gwaith ymchwil hwn ar lefel Ewropeaidd, ac na ddylid o anghenraid roi cychwyn arno yng Nghymru.
- c. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn awyddus i weld rhagor o ymchwilio i gyfnodau 'mewn defnydd' a 'diwedd oes'.
- d. Arweiniodd hyn at holi am fater ehangach hybu buddsoddi heb dystiolaeth gadarn y bydd hynny'n arwain at welliannau mesuradwy i'r amgylchedd adeiledig.
- e. Credai gweithgynhyrchydd fod angen rhagor o ymchwil i'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol setiau data gan ychwanegu y dylid gwneud yr ymchwil ar lefel Ewropeaidd. Soniodd y gweithgynhyrchydd hefyd fod angen ymchwilio i'r manteision amgylcheddol net a'u mesur, gan ystyried yr effaith ar yr amgylchedd yn ystod y cyfnod gweithgynhyrchu yn ogystal ag yn ystod y cyfnodau 'mewn defnydd' a 'diwedd oes'. Pwysleisiodd gweithgynhyrchydd bwysigrwydd y cyfnodau 'mewn defnydd' a 'diwedd oes' ar gyfer llunio unrhyw gymhariaeth ystyrllon rhwng cynhyrchion.
- f. Cyfeiriodd corff proffesiynol at y diffyg ymchwil cadarn yn gyffredinol a'r diffyg data wedi'u mesur i gefnogi buddsoddi yn yr amgylchedd adeiledig.
- g. Roedd corff masnach hefyd yn poeni nad yw'r cyfnod 'diwedd oes' yn cael ei ystyried i raddau digonol fel rhan o broses yr EPD, ac felly bod hynny'n gostwng eu gwerth yn sylweddol.
- h. Cred sefydliad ymchwil BREA nad yw'r pryderon am gywirdeb y canlyniadau'n ddigonol i'w gweld yn rhwystr rhag hyrwyddo LCA ac EPDs.

Roedd C 41 yn gofyn i ymatebwyr roi eu barn am rôl Llywodraeth Cymru yn noddi ymchwil o'r fath.

- a. Barn nifer o ymatebwyr oedd y gallai Llywodraeth Cymru noddi ymchwil i LCA.
- b. Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr na ddylid gwneud ymchwil mewn ffordd ynysig ond y dylai fod yn ymdrech ar y cyd sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.
- c. Nodwyd y dylid gwneud unrhyw ymchwil mewn ffordd annibynnol a thryloyw

gyda'r nod o sicrhau cyn lleied o risg o wrthdaro rhwng buddiannau â phosibl.

- d. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir beth yw canlyniad disgwylidig ymchwil o'r fath cyn bwrw ymlaen â'r cynllun hwn.
- e. Awgrymodd gweithgynhyrchydd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro cynnydd cynlluniau sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar lefel Ewropeaidd gan gydweithio o bosibl â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i arwain astudiaeth arfaethedig ar LCA.
- f. Credai corff proffesiynol y gallai Llywodraeth y Deyrnas Unedig hyrwyddo ymchwil drwy gynlluniau ar gyfer busnesau lleol sydd wedi'u trefnu'n 'glystyrau' mewn rhanbarthau allweddol.

Roedd C42 yn gofyn a oedd ymatebwyr yn credu bod honiadau heb eu rheoleiddio a rhai di-sail ynglŷn â'r amgylchedd yn rhwystr rhag hyrwyddo cynhyrchion sy'n wirioneddol gynaliadwy.

- a. Cytunai'r mwyafrif o'r ymatebwyr y gall honiadau amgylcheddol di-sail fod yn rhwystr rhag hyrwyddo cynhyrchion cynaliadwy.
- b. Esboniodd rhai ymatebwyr fod hyd i oed honiadau amgylcheddol sydd â sail iddynt megis EPDs gyfyngiadau a all arwain at hyrwyddo'r cynnyrch anghywir.
- c. Esboniodd ymatebydd y gall honiadau amgylcheddol sydd â sail iddynt hyd yn oed fod yn rhwystr rhag hyrwyddo cynhyrchion cynaliadwy, os na fyddant ond yn cael eu darparu fel rhan o ymarfer 'ticio blychau'.
- d. Dywedodd gweithgynhyrchydd (ymatebydd 6) er bod EPDs yn cael eu hystyried yn honiadau amgylcheddol sydd â sail iddynt, bod eu diffyg dibynadwyedd a'r diffyg gallu cymharu'n broblem fawr a allai arwain at anawsterau tebyg i'r rheini a achosir yn sgil honiadau di-sail, a chynhyrchion yn cael eu dethol ar sail asesiad anghywir ynglŷn â'u heffaith ar yr amgylchedd.
- e. Credai sefydliad ymchwil fod y safonau sy'n llywodraethu EPDs megis EN 15804 yn cynnig fframwaith dibynadwy ac mai dyma'r ateb i'r broblem hon.

Roedd C43 yn gofyn a oedd effaith adeiladau newydd ar yr amgylchedd o'i chymharu ag effaith adnewyddu'n cael ei hystyried ddigon yn y broses benderfynu.

- a. Credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr nad yw effaith adeiladau newydd ar yr amgylchedd o'i chymharu ag effaith adnewyddu'n cael ei hystyried ddigon.
- b. Derbynnir yn gyffredinol fod y penderfyniad i fwrw ymlaen ag adeiladu o'r newydd neu adnewyddu'n seiliedig ar gost yn hytrach nag ar unrhyw

ystyriaeth arall.

- c. Nodwyd bod adnewyddu'n ffordd bwysig iawn o leihau'r effaith ar yr amgylchedd ac nad yw hynny'n cael digon o sylw.
- d. Mae'n ymddangos bod y farchnad yn esblygu'n araf yn y cyswllt hwn wrth i bobl ddod yn fwy ymwybodol o effaith gynyddol adeiladau newydd ar yr amgylchedd.
- e. Crybwyllodd awdurdod lleol astudiaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer Cadwraeth Hanesyddol y cyfeiriwyd ato yn y Papur Adolygu cyntaf. Mae'r astudiaeth hon yn sôn am yr effaith sylweddol iawn a gaiff adeiladu o'r newydd ar yr amgylchedd o'i chymharu ag effaith adnewyddu.
- f. Awgrymodd cynghrair masnach y gallai grymoedd y farchnad hybu'r broses hon heb fod angen rhagor o reoleiddio.
- g. Esboniodd corff adeiladwyr tai y bydd gan wahanol adeiladwyr wahanol farn am hyn a dibynnu ar yr achos dan sylw. Byddai'r hyn yn awgrymu nad oes gan y diwydiant yr arfau a/neu'r wybodaeth i asesu a chymharu mewn ffordd ddibynadwy yr effaith a gaiff adnewyddu ar yr amgylchedd o'i chymharu ag effaith adeiladu o'r newydd.

Roedd C44 yn gofyn i ymatebwyr roi rhestr o'r tri ffactor pwysicaf sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn ag a ddylid adnewyddu adeilad sy'n bodoli eisoes ynteu codi un newydd.

- a. Y ffactor pwysicaf un a nodwyd oedd cost.
- b. Roedd arwyddocâd hanesyddol a statws cadwraeth, ynghyd ag amser i gwblhau'r prosiect hefyd yn ffactorau o bwys.
- c. Lleiafrif o'r ymatebwyr a gyfeiriodd at yr effaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys arbed ynni fel ffactor. Hyd yn oed yn yr achosion hyn, nid ystyrid mai'r effaith ar yr amgylchedd oedd y ffactor mwyaf pwerus.
- d. Yn ôl awdurdod lleol, yn nhrefn eu pwysigrwydd, dyma'r tri ffactor mwyaf arwyddocaol: cost, addasrwydd at y diben, effaith ar yr amgylchedd. I bob golwg, dyma farn y rhan fwyaf o ymatebwyr, gyda mân amrywiadau. Mewn ambell achos, nid yw'r effaith ar yr amgylchedd i bob golwg yn elfen o'r tri phrif ffactor o gwbl.
- e. Honnai'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni mai'r potensial i arbed ynni a darparu ynni adnewyddadwy yw dau o'r ffactorau pwysicaf sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i fwrw ymlaen i adnewyddu ynteu adeiladu o'r newydd. Er bod y farn hon yn ddiddorol, nid oes neb o'r ymatebwyr eraill i bob golwg yn cytuno â hi.

Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf

Datgelodd yr ymgynghoriad fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â dadansoddiad a chynigion yr ymgynghoriad. Cydnabyddir yn gyffredinol fod LCA yn ddiffygiol o ran aeddfedrwydd ac yn achosi anawsterau sylweddol sy'n rhwystr rhag rheoleiddio ar hyn o bryd. Er mai dyma'r farn gyffredinol, roedd ymatebion y corff ymchwil o blaid LCA ochr yn ochr â rheoleiddio.

Serch hynny, roedd yr ymatebwyr eraill yn gyffredinol yn cytuno mai'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r asesiad cylch oes yw'r mater pwysicaf, a hynny'n bennaf oherwydd bod setiau data trydydd parti'n cael eu defnyddio a bod diffyg canolbwyntio ar y cyfnod 'mewn defnydd'. Mae'r diffyg sicrwydd ynglŷn â'r canlyniadau'n golygu bod unrhyw gymharu rhwng cynhyrchion yn hynod annibynadwy ac felly'n rhwystro LCA rhag dylanwadu er gwell ar y gadwyn gyflenwi. Roedd cytundeb yn gyffredinol nad oes modd cyfiawnhau rheoleiddio ar hyn o bryd oherwydd y goblygiadau sylweddol i'r diwydiant o ran costau a'r diffyg manteision amlwg.

Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod angen rhagor o waith ymchwil i wella prosesau LCA er mwyn goresgyn rhai o'i gyfyngiadau. Yn gyffredinol, teimlai'r ymatebwyr y dylid gwneud ymchwil o'r fath ar lefel Ewropeaidd gan ddweud na ddylai unrhyw gynllun gan Lywodraeth Cymru wrthdaro â gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel Ewropeaidd na'i ddyblygu.

Er mwyn sicrhau hyn, ac ar ôl inni ddeall beth fydd goblygiadau Brexit ar gyfer safonau technegol a chynhyrchion adeiladu, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd i ddeall pa rôl y gall Cymru a diwydiant Cymru ei chwarae wrth ddatblygu'r fethodoleg PEF LCA newydd. Byddai'n fuddiol gwneud unrhyw waith a wneir yn y cyswllt hwn ar y cyd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac felly, bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i gysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddeall yr hyn sy'n cael ei wneud ar lefel y Deyrnas Unedig ac i gael gwybod sut y gall Cymru chwarae mwy o ran yn hyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr yng Nghymru ac â'r diwydiant adeiladu yng Nghymru'n gyffredinol oherwydd y byddent hwythau hefyd yn elwa o ymwneud yn rhagweithiol â'r broses hon.

Cyrchu deunyddiau mewn modd cyfrifol

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys adolygu safonau, canllawiau a pholisïau perthnasol sydd ar waith eisoes, y gellid o bosibl eu mabwysiadu gan safonau Cymru, drwy gynnwys gofynion BREEAM a'r Cod Cartrefi Cynaliadwy yn Rheoliadau Adeiladu Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y Safonau Prydeinig cyfredol, amrywiol gynlluniau ardystio cyrchu cyfrifol ar gyfer cynhyrchion adeiladu a ddefnyddir o amgylch y byd a chanllawiau rhyngwladol sy'n ymwneud â chyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol.

Isod, rhoddir yr ymatebion penodol i bob un o gwestiynau'r cynnig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad gyda golwg ar gynnwys cyrchu deunyddiau mewn modd cyfrifol yn y canllawiau. Yn yr adran a ganlyn, ar ôl crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghori, rhoddir ymateb y llywodraeth i fynd i'r afael â rhai o'r prif bwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad, yn ogystal â braslun o'r camau nesaf.

Roedd C45 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno nad yw'n ymarferol ar hyn o bryd inni gyflwyno rheoliadau cyrchu cyfrifol yng Nghymru.

- a. Roedd yr ymateb yn unfrydol, sef nad yw'n ymarferol cyflwyno rheoleiddio ar hyn o bryd. Adborth cyffredinol yr ymatebwyr oedd bod gofynion cynlluniau ardystio cyrchu cyfrifol yn rhy feichus, yn enwedig i fentrau bach a chanolig.
- b. Mynegwyd barn hefyd y byddai gan gontractwyr, cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr mawr fantais gystadleuol dros gwmnïau llai o faint nad dynt yn llwyr ddeall cyrchu cyfrifol.
- c. Mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu, petai rhagor o wybodaeth ar gael am gyrchu cyfrifol, y gellid cymryd camau wedyn tuag at reoleiddio'r drefn.
- d. Teimlir bod cyrchu deunyddiau mewn modd cyfrifol yn gysyniad cymharol newydd o hyd i lawer o bobl yn y diwydiant, a chyn gallu ei gynnwys mewn rheoliadau, rhaid iddo yn gyntaf ddod yn arfer normal.
- e. Barn Ffederasiwn Gwaith Coed Prydain yw bod angen i'r Llywodraeth annog defnyddio deunyddiau gwirioneddol isel eu heffaith sy'n briodol i anghenion prosiect unigol. Maent yn meddwl, os bwriedir rheoleiddio, yna y dylai fod maes chwarae gwastad i fentrau bach a chanolig, microfusnesau a chyflenwyr cenedlaethol fel ei gilydd.
- f. Dywedodd sefydliad ymchwil BREA fod rheoleiddio'n arf rhy bŵl ar gyfer cyrchu cyfrifol sydd yn ei fabandod ym maes rhai sectorau sy'n cynhyrchu deunyddiau, er yn faes sy'n tyfu; mae agregau, concrit a bwrdd plastr yn feysydd sy'n cael eu trin yn rhagorol. Maent yn teimlo mai'r ffordd orau o fynd o'i chwmpas hi yw argymhell y drefn yn gryf.

Ymateb y Llywodraeth

Er bod ymatebwyr yn cytuno nad yw rheoleiddio'n ymarferol ar hyn o bryd, bwriedir dilyn trywydd hyn gyda Ffederasiwn Gwaith Coed Prydain i gael gwybod am eu barn ynglŷn â sut y gallai'r Llywodraeth annog pobl i ddefnyddio deunyddiau isel eu heffaith. Yn yr un modd, gallai fod yn fuddiol cysylltu â'r sefydliad ymchwil i gael rhagor o fanylion am yr hyn y byddai 'argymell yn gryfach' yn ei olygu yn eu barn hwy.

Roedd C46 yn gofyn i ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'r rhwystrau mwyaf rhag cyflwyno rheoliadau cyrchu cyfrifol yng Nghymru.

- a. Cafwyd amrywiaeth o wahanol resymau gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r rhwystrau mwyaf rhag rheoleiddio yn eu barn hwy.
- b. Un rheswm a roddwyd oedd nad oes gan Fentrau Bach a Chanolig yr adnoddau ariannol i fynd ar drywydd ardystio cyrchu cyfrifol.
- c. Roedd ymatebion eraill hefyd yn sôn am y cyfyngiadau sy'n wynebu Mentrau Bach a Chanolig, gan gyfeirio at y ffaith nad oes gan lawer o gwmnïau na'r amser na'r seilwaith sy'n ofynnol i gynnal cronfa ddata drefnus ar gyfer yr holl ddogfennau.
- d. Dywedodd rhai ymatebwyr mai'r gwir syml yw bod diffyg galw am ardystio cyrchu cyfrifol gan gleientiaid yng Nghymru. At hyn, dim ond nifer fach o adeiladwyr mawr sy'n gweithio'n rheolaidd yng Nghymru, sy'n golygu nad yw pobl o bosibl yn ymwybodol iawn o'r mater hwn.
- e. Dywedodd cymdeithas fasnach ei bod yn teimlo bod rhai cynlluniau cyrchu cyfrifol yn gwobrwyo pobl sydd â systemau rheoli ar waith, ac y gall hyn fod yn rhwystr rhag darparu cynhyrchion cynaliadwy gan fentrau bach a chanolig. Maent yn credu ei bod yn hanfodol rhoi rhagor o bwyslais ar faint o ynni a ddefnyddir gan weithgynhyrchwyr. Drwy wneud hyn, maent yn teimlo na fyddai gweithgynhyrchwyr mwy o faint sy'n defnyddio mwy o ynni'n cael eu ffafrio yn hytrach na gweithgynhyrchwyr bach Carbon-isel.
- f. Mae sefydliad ymchwil BREA wedi dweud bod rhai grwpiau o gynhyrchion wedi datblygu trefniadau ardystio cyrchu cyfrifol da, ond bod llawer o grwpiau eraill heb wneud hyn. Maent yn cynnig enghreifftiau o gynlluniau ar gyfer rheiddiaduron, systemau awyru a phaent; mae'r rhain yn dechrau creu ymchwydd fwy o weithgarwch mewn ambell sector. Cyngor y sefydliad yw y byddai 'argymell yn gryfach' yn llai o gam na rheoleiddio ac y byddai'n fwy addas.

Ymateb y Llywodraeth

Efallai y byddai'n ymarferol i reoliadau yn y dyfodol y bwriedir iddynt fynd i'r afael â chyrchu

cyfrifol edrych ar sicrhau maes chwarae gwastad i weithgynhyrchwyr llai a rhai mwy o ran eu heffaith gyffredinol ar yr amgylchedd. Serch hynny, roedd yr ymgynghoriad hwn wedi'i seilio ar gynlluniau cyrchu cyfrifol fel y maent ar hyn o bryd.

Byddwn yn trafod â'r ymatebydd penodol pa fath o argymell a allai fod yn ymarferol, heb reoleiddio.

Roedd C47 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno y byddai llawer o fentrau bach a chanolig ar hyn o bryd yn ei chael yn anodd cydymffurfio â rheoliadau cyrchu cyfrifol petai'r rheini'n cael eu cyflwyno. Roedd hefyd yn gofyn i ymatebwyr a oedd rheoleiddio'n rhoi mentrau bach a chanolig llai o faint o dan anfantais.

- a. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg iawn i'r rhai a roddwyd i'r cwestiynau blaenorol. Dywedodd bron pob ymatebydd y byddai mentrau bach a chanolig o dan anfantais.
- b. Dywedodd nifer o ymatebwyr unwaith eto nad oes gan fentrau bach a chanolig yr adnoddau i fynd ar drywydd ardystiad cyrchu cyfrifol.
- c. Dywedodd eraill unwaith eto fod gofynion cyrchu cyfrifol yn rhy feichus ac yn ormod o draul ar amser i fentrau bach a chanolig.
- d. Eto, cyfeiriwyd at y broblem bod cynlluniau cyrchu cyfrifol yn rhoi gormod o bwyslais ar gael systemau rheoli ar waith. Awgrymwyd y byddai defnyddio data LCA yn ddull mwy addas i benderfynu a yw cynnyrch yn addas i'w ddefnyddio.
- e. Sefydliad ymchwil BREA oedd yr unig ymatebydd nad oedd yn cytuno'n llwyr y byddai mentrau bach a chanolig o dan anfantais yn sgil rheoleiddio. Roeddent yn honni iddynt weld mentrau bach a chanolig yn llwyddo i gael ardystiad cyrchu cyfrifol yn gyflymach na chwmnïau mwy o faint. Maent yn dweud bod hyn wedi digwydd mewn sefyllfaoedd lle'r oedd rheolwyr menter fach a chanolig wedi rhoi cyfarwyddyd uniongyrchol i'r busnes sicrhau cydnabyddiaeth o'r fath, sy'n golygu y gallant fod yn fwy hyblyg yn cydymffurfio â'r gofynion.

Roedd C48 yn gofyn i'r ymatebwyr beth fyddai'r dull(iau) gorau o gryfhau'r ymwybyddiaeth o gyrchu cyfrifol ymhlith mentrau bach a chanolig ac a allent gynnig unrhyw enghreifftiau.

- a. Cafwyd nifer o enghreifftiau gan yr ymatebwyr yn ymateb i'r cwestiwn hwn.
- b. Awgrymwyd y gellid cyflwyno cod cyrchu cyfrifol gwirfoddol a fyddai'n argymell defnyddio cynhyrchion penodol a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Serch hynny, ni roddwyd rhagor o enghreifftiau o sut y byddai hyn yn cael ei roi ar waith.
- c. Un dull a gynigiwyd oedd y gallai cymdeithasau masnach chwarae rhan yn

cryfhau ymwybyddiaeth eu haelodau mewn mentrau bach a chanolig a mentrau eraill o'r fath yn y gadwyn gyflenwi.

- d. Mae rhai'n poeni, serch hynny, hyd yn oed petai ymwybyddiaeth mentrau bach a chanolig o gyrchu cyfrifol yn cael ei chryfhau, na fyddai hyn yn chwalu'r rhwystrau o ran costau neu adnoddau a drafodwyd uchod, ar ôl iddynt ddeall y gofynion.
- e. Yn ogystal â'r dulliau hyn a gynigiwyd, cafwyd enghreifftiau gan rai o'r ymatebwyr o gynlluniau a mentrau a allai helpu i gryfhau ymwybyddiaeth o gyrchu cyfrifol yng Nghymru. Mae'r Cynghrair Adeiladu yn dweud y gellid cynnal digwyddiadau a defnyddio'r we i hyrwyddo astudiaethau achos a chynlluniau mewn diwydiant. Un cynllun o'r fath a enwir ganddynt yw eu rhaglen REAP. Mae un gymdeithas fasnach yn aelod o'r Cynllun Stiwardiaeth Alwminiwm, sy'n gweithio tuag at gynllun ardystio cyrchu cyfrifol ar gyfer cynhyrchion alwminiwm. Mae corff ymchwil yn bartner yn Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi a sefydlwyd nifer o flynyddoedd yn ôl ac sy'n cynnig llwybr at hyfforddiant ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ac i'r gadwyn gyflenwi ym maes adeiladu. Maent hefyd yn hyrwyddo gweithgareddau cyrchu cyfrifol drwy'r rhwydwaith Apres.
- f. Cafwyd un awgrym fymryn yn wahanol gan un o gyrrff ambarél y gweithgynhyrchwyr, sef y dylai'r Llywodraeth gyflwyno 'deddfwriaeth feddal' ar ffurf 'Cod Cyrchu mewn modd Cyfrifol'.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymchwilio rhagor i'r cynlluniau a'r mentrau y cyfeiriwyd atynt er mwyn penderfynu pa fath o gryfhau ymwybyddiaeth o gyrchu cyfrifol fyddai'n ymarferol ymhlith mentrau bach a chanolig hyd at y pwynt lle y byddai rheoleiddio'n dod yn fwy realistig. Nid yw'n fwriad mynd i'r afael â hyn yn yr adolygiad hwn, ond yn hytrach bwriedir codi'r peth ar wahân gyda'r ymatebwyr.

Mae awgrym corff ambarel y gweithgynhyrchwyr cynhyrchion y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno 'deddfwriaeth feddal' ar ffurf 'Cod Cyrchu mewn modd Cyfrifol' yn ddiddorol mewn egwyddor a byddwn yn mynd ar drywydd hyn ar wahân gyda'r corff hwnnw.

Roedd C49 yn gofyn i'r ymatebwyr a ellid gwneud rhagor yn y diwydiant i greu canllawiau ynghylch ardystio cyrchu cyfrifol ac a allent gynnig enghreifftiau.

- a. Roedd cytundeb unfrydol fwy neu lai yn yr ymatebion y gellid rhoi rhagor o ganllawiau yn y diwydiant ynghylch sicrhau ardystiad cyrchu cyfrifol.
- b. Serch hynny, dywedwyd na fyddai hyn, nac ychwaith gryfhau ymwybyddiaeth pobl, yn chwalu'r rhwystrau o ran costau ac adnoddau i lawer o gwmnïau llai o faint.

- c. Barn y sefydliad ymchwil, BREIA oedd y gall sicrhau ardystiad fod yn syml, ond mae llawer o ymatebwyr eraill yn meddwl bod y broses yn rhy feichus i lawer o gwmnïau, ni waith faint o ganllawiau a roddir iddynt.
- d. Dadleuwyd y dylid darparu canllawiau ar lefel y Deyrnas Unedig, nid dim ond yng Nghymru, er mwyn i reoleiddio cyrchu cyfrifol ddod yn rhywbeth realistig.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'n ymddangos mai'r farn gyffredin ym mhob sector o'r diwydiant yw na wnaiff rhagor o ganllawiau chwalu'r rhwystrau eraill rhag sicrhau ardystiad cyrchu cyfrifol. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried a oes angen rhagor o ganllawiau, manteision hynny ac oes angen ymateb y tu hwnt i Gymru.

Roedd C50 yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno y byddai lliniaru'r gofynion cyrchu cyfrifol i fentrau bach a chanolig yn golygu y byddai'n ymarferol creu rheoliadau newydd.

- a. Barn gyffredin ymhlith yr ymatebwyr a roddodd sylw am y cwestiwn hwn oedd na fyddai lliniaru unrhyw ofynion i fentrau bach a chanolig yn opsiwn hyfyw.
- b. Dywedodd rhai o'r rhain, er y byddai lliniaru'r rheoliadau i fentrau bach a chanolig o fudd iddynt hwy, y gallai hyn wrthdroi'r sefyllfa, gan roi cwmnïau mwy o faint o dan anfantais yn sgil gorfod bodloni gofynion nad oes yn rhaid i weddill y farchnad eu bodloni.
- c. Y farn amlwg yn y sylwadau yw y dylai unrhyw reoliadau newydd fod yn berthnasol i'r diwydiant i gyd, ac y bydd cael rheolau gwahanol i wahanol gwmnïau'n golygu bod cydymffurfio â chynlluniau cyrchu cyfrifol hyd yn oed yn fwy cymhleth.
- d. Rhoddwyd enghraifft o'r gweithdrefnau symlach a gyflwynwyd i Reoliadau Cynhyrchion Adeiladu'r Undeb Ewropeaidd, ond ychydig o bwyllgorau technegol CEN sy'n gallu trosi'r rhain ar lefel ymarferol o fewn Normau cyson Ewrop.
- e. Mae'n ymddangos nad yw rhai cyrff yn y diwydiant o blaid lliniaru'r rheoliadau cyrchu cyfrifol i fentrau bach a chanolig yn unig. Teimlir y bydd hyn mewn gwirionedd yn trosglwyddo'r anfanteision posibl i gwmnïau mwy o faint, gan olygu na fydd cae chwarae gwastad yn bodoli o hyd.

Roedd C51 yn gofyn i'r ymatebwyr o ran eu gallu i gystadlu yn y farchnad o fewn y diwydiant, a ydynt yn teimlo y byddai dilyn y dull a ddisgrifir uchod yn cau'r bwlch rhwng cwmnïau mawr a bach, ynteu'n trosglwyddo'r anfanteision i'r cwmnïau mwy.

- a. Dywedodd y rhan fwyaf o'r sylwadau a roddwyd wrth ateb y cwestiwn hwn mewn gwirionedd y byddai lliniaru'r gofynion i fentrau bach a

chanolig yng nghyswllt unrhyw gynigion ar gyfer rheoliadau'n cau'r bwlich rhwng y cwmnïau hyn a sefydliadau mwy o faint.

- b. Mae rhai o'r ymatebwyr wedi honni nad yw llawer o gwmnïau mwy o faint yn ei chael yn anodd cydymffurfio â safonau cyrchu cyfrifol; felly dylai unrhyw reoliadau newydd fod yn ddigon syml iddynt gydymffurfio â hwy hefyd. Petai'r gofynion yn cael eu gwneud yn symlach i fentrau bach a chanolig, byddai hyn yn lleihau'n sylweddol y costau a'r amser na fyddai llawer ohonynt yn gallu eu fforddio.
- c. Awgrymwyd y dylai'r Llywodraeth ymgynghori â'r cyrff sy'n gyfrifol am reoli cynlluniau cyrchu cyfrifol i helpu i ddod o hyd i ffordd o greu gwahanol lefelau o ofynion.
- d. Dywedodd ychydig o ymatebwyr y byddai hyn yn help i gontractwyr llai yn benodol, oherwydd na fyddent yn gorfod cyfeirio adnoddau i fynd ar drywydd dogfennau cyrchu cyfrifol gan eu cadwyn gyflenwi.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r gwahanol ymatebion a gafwyd yn adlewyrchu gwahanol amgylchiadau cyrff/cwmnïau unigol. Yr hyn sy'n debygol o ddylanwadu ar ateb cwmni yw'r profiad y mae wedi'i gael yn y gorffennol wrth sicrhau ardystiad cyrchu cyfrifol a pha mor syml neu gymhleth oedd y broses. Cyn gallu datblygu unrhyw ddull 'dwy haen', mae angen rhagor o ymchwil i weld a fyddai hyn yn creu mantais gystadleuol amlwg neu beidio i gwmnïau penodol o'u cymharu â gweddill y farchnad. Ni chynigir unrhyw gamau ar hyn o bryd.

Roedd C52 yn gofyn i ymatebwyr, hyd y gwyddent, a oeddent yn teimlo bod gormod o fiwrocratiaeth a bod hynny'n gallu tarfu ar sicrhau ardystiad cyrchu cyfrifol.

- a. Roedd yr ymatebwyr fwy neu lai'n cytuno'n unfrydol bod gormod o 'fiwrocratiaeth' wrth geisio sicrhau ardystiad cyrchu cyfrifol.
- b. Mae rhai ymatebwyr wedi dweud bod hyn yn anodd ei osgoi oherwydd y swm o wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn sicrhau'r ardystiad.
- c. Barn gyffredin yw bod proses casglu'r holl ddogfennau sy'n ofynnol yn feichus iawn, ac yn draul sylweddol ar adnoddau ariannol a dynol.
- d. Mae llawer o sylwadau wedi awgrymu y byddai mabwysiadu system ddigidol i gofnodi'r data hyn yn arbed amser ac adnoddau.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r diwydiant drwyddo draw'n teimlo bod gormod o fiwrocratiaeth yn tarfu ar ardystio cyrchu cyfrifol. Nid yw hyn yn fater y gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef yn uniongyrchol. Bwriedir ymgysylltu â'r cyrff sy'n rheoli'r cynlluniau cyrchu cyfrifol i weld pa gyfleoedd sydd i addasu'r dull o ddogfennu gwybodaeth ar gyfer y cynllun unigol.

Roedd C53 yn gofyn i ymatebwyr a oedd modd i gyflenwyr a gweithgynhyrchwyr mawr y byd adeiladu wneud rhagor yn eu barn hwy i hyrwyddo defnyddio deunyddiau a gyrchwyd yn gyfrifol.

- a. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth y gallai cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr mawr y byd adeiladu wneud rhagor i hyrwyddo deunyddiau sydd wedi'u cyrchu'n gyfrifol.
- b. Roedd llawer o'r sylwadau'n dweud, petai'r cyflenwyr a'r gweithgynhyrchwyr adeiladu mawr ar flaen y gad yn y gwaith hyrwyddo hwn, y byddai hynny ar unwaith yn hybu'r broses ac yn ysgafnhau'r baich o ran amser ac adnoddau.
- c. Serch hynny, dywedodd rhai ymatebwyr nad oes modd i'r gweithgynhyrchwyr a'r cyflenwyr mawr hyrwyddo deunyddiau a gyrchir yn gyfrifol ar eu pen eu hunain a'i bod yn rhaid i feysydd eraill yn y diwydiant gyfrannu at hyn hefyd.
- d. Er enghraifft, roedd nifer o'r ymatebion yn esbonio os nad oedd awydd sylweddol o du cleientiaid sy'n dymuno defnyddio cynhyrchion penodol sydd wedi'u cyrchu'n gyfrifol, mai ychydig o gymhelliant fyddai i gyflenwyr a gweithgynhyrchwyr fuddsoddi er mwyn cael ardystiad cyrchu cyfrifol.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos nad oes modd i un adran o'r diwydiant yn unig hyrwyddo defnyddio deunyddiau sydd wedi'u cyrchu'n gyfrifol. Dylai pob rhanddeiliaid gyfrannu at hyn er mwyn iddo ddod yn arfer normal ac o bosibl arwain at reoleiddio yn y dyfodol.

Roedd cynghrair masnach yn awgrymu bod y diwydiant adeiladu yng Nghymru'n gwbl ymroddedig i wneud y peth iawn ac y dylid meddwl rhagor am fesur effaith carbon yn sgil cludiant yn iawn yng Nghymru. Mae gallu'r drefn cyrchu cyfrifol i ystyried allyriadau cludiant yn gysylltiedig ag asesu effaith cynhyrchion ar yr amgylchedd. Credir nad yw'n ymarferol mynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd.

Roedd C54 yn gofyn i'r ymatebwyr gynnig unrhyw sylwadau ychwanegol.

- a. Rhoddodd pedwar ymatebydd sylwadau ychwanegol.
- b. Cyfeiriodd y Cynghrair Adeiladu at broblemau'r Diwydiant Dur, gan ddweud, yng ngoleuni hyn, y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o bwyslais ar annog defnyddio deunyddiau a gynhyrchir yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Yn gyffredinol, maent yn argymhell na ddylid gwneud fawr neu ddim newidiadau i'r drefn reoleiddio gan annog a helpu'r diwydiant i fuddsoddi mewn taith sy'n cael ei gyrru gan y farchnad i sicrhau tai sy'n perfformio'n well a bod defnyddwyr yn fwy gwybodus ac yn cael eu grymuso i ddefnyddio llai o ynni.

- c. Mae'r Gymdeithas Cynhyrchion Adeiladu wedi dweud y bydd cyflwyno rheoleiddio cyrchu cyfrifol yn darged da, ac na fyddai ond yn ymarferol gwneud hyn ar sail y Deyrnas Unedig gyfan.
- d. Barn Sefydliad Gwaith Coed Prydain yw, er mwyn mynd i'r afael mewn gwirionedd â chynaliadwyedd cynhyrchion adeiladu, ei bod yn rhaid i'r diwydiant roi cyfri llawn am y Carbon sydd wedi'i gorffori mewn cynhyrchion Maent wedi cynnig llawer o wybodaeth am hyn, felly byddai trafodaeth ddilynol yn fuddiol iawn.
- e. Dywedodd RICS yng Nghymru y dylid craffu'n ofalus iawn ar unrhyw reoliadau yr ystyrir eu bod yn gofyn mwy na'r safonau sy'n ofynnol yng ngweddill y Deyrnas Unedig o safbwynt costau, er mwyn peidio â rhoi Cymru o dan anfantais o'i chymharu â Lloegr. Ategwyd y farn a fynegwyd gan ymatebwyr eraill y byddai'n fwy priodol cyflwyno'r rheoliadau drwy'r Deyrnas Unedig gyfan, neu o leiaf yng Nghymru ac yn Lloegr. Awgrymwyd mai dewis amgen fyddai i Lywodraeth Cymru ddarparu arian / cymorth grant yn gefn i unrhyw Reoliadau sy'n mynd y tu hwnt i safonau cenedlaethol.

Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys adolygu safonau, canllawiau a pholisïau perthnasol sydd ar waith eisoes, y gellid o bosibl eu mabwysiadu gan safonau Cymru, drwy ymgorffori gofynion BREEAM a'r Cod Cartrefi Cynaliadwy i Reoliadau Adeiladu Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y Safonau Prydeinig cyfredol, amrywiol gynlluniau ardystio cyrchu cyfrifol ar gyfer cynhyrchion adeiladu a ddefnyddir o amgylch y byd a chanllawiau rhyngwladol am gyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol.

Datgelodd yr ymgynghoriad fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnwys cynigion yr ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n unfrydol nad oedd yn ddymunol mynd ati i reoleiddio cyrchu cyfrifol ar hyn o bryd. Y rhwystr pennaf rhag rheoleiddio y cyfeiriodd yr ymatebwyr ati oedd y goblygiadau ymarferol ac economaidd i fentrau bach a chanolig a hynny heb fanteision masnachol amlwg. Rhaid nodi bod y sefydliad ymchwil wedi dweud ei fod yn credu y byddai mentrau bach a chanolig yn wir ar eu hennill o gymryd rhan mewn cynlluniau cyrchu cyfrifol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eraill yn dweud eu bod yn credu bod sicrhau ardystiad cyrchu cyfrifol yn broses feichus iawn sy'n gofyn am gryn adnoddau a buddsoddi.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y byddai'r diwydiant yn elwa o fwy o ymwybyddiaeth o gyrchu cyfrifol. Awgrymwyd y gellid gwneud hyn drwy gydweithio'n agos â chymdeithasau masnach i ddatblygu dogfennau canllawiau. Serch hynny, nodwyd hefyd na fyddai cryfhau'r ymwybyddiaeth yn goresgyn y rhwystrau ariannol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â chyrchu cyfrifol.

Ymateb cymysg a gafwyd i'r awgrym y gellid cyflwyno set llai beichus o reoliadau i fentrau bach a chanolig a rhai a oedd yn gofyn mwy gan gwmnïau mwy o faint. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai hynny'n cau'r bwch rhwng mentrau bach a chanolig a chwmnïau mwy o faint gyda golwg ar gyflawni gofynion cyrchu cyfrifol ond teimlai eraill y byddai hyn yn

trosglwyddo'r anfanteision i gwmnïau mwy.

Mae'n amlwg bod yr ymatebwyr yn cytuno'n unfrydol nad yw'r diwydiant adeiladu'n teimlo mai nawr yw'r amser iawn i gyflwyno rheoleiddio ar gyfer cyrchu deunyddiau'n gyfrifol. Er hyn, mae cyfle da o hyd i hyrwyddo rhagor ar gyrchu cyfrifol a'r cynlluniau niferus sy'n ardystio cynhyrchion drwy'r diwydiant ac felly'n sicrhau'r manteision mwyaf yn eu sgil. Er mwyn cyflawni hyn, cynigir y dylid ystyried sut orau mae cryfhau ymwybyddiaeth drwy ymgysylltu â chynlluniau ardystio sydd ar gael eisoes, gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr a chontractwyr.

Creu canllawiau a chryfhau ymwybyddiaeth

Gellid cynhyrchu canllawiau clir ynghylch ardystio cyrchu cyfrifol fel rhan o gryfhau'r ymwybyddiaeth am y mater. Dylid targedu hyn at fentrau bach a chanolig yn benodol. Heb ddysgu am bwrpas ardystio cyrchu cyfrifol trydydd parti a manteision posibl hynny, ni allai llawer o gwmnïau obeithio cydymffurfio ag unrhyw ofynion mewn rheoliadau adeiladu yn y dyfodol, a byddai hyn yn amharu'n ddifrifol ar eu busnes.

Er mwyn helpu i sicrhau bod hyn yn effeithiol, byddai'n fuddiol iawn ymgysylltu â'r cyrff sy'n ardystio cyrchu cyfrifol oherwydd mai gan y rhain y mae'r wybodaeth fwyaf manwl am y mater. Byddai hyn yn rhoi cyfle iddynt gynnig cyngor am y dulliau gorau o sicrhau ardystiad ac i ddadlau y byddai ardystio o fudd i gwmnïau. Enghreifftiau o gyrff y gellid ymgysylltu â hwy yn y cyswllt hwn fyddai BRE, Y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth, PEFC, CARES a Groundwork Cymru (ar gyfer Ardystiad y Ddraig Werdd).

O ran cryfhau ymwybyddiaeth o'r canllawiau hyn ac ardystio cyrchu cyfrifol yn gyffredinol, awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid mynd at gymdeithasau masnach a gofyn iddynt am eu cymorth yn hyn o beth. Byddai cymdeithasau masnach yn gallu cyrraedd cynulleidfa ehangach yn y diwydiant a byddent mewn sefyllfa gref i roi gwybod i'w haelodau i gyd am yr heriau sy'n wynebu Cymru a'r Deyrnas Unedig ehangach ar hyn o bryd o ran cyrchu cyfrifol, yn ogystal â hyrwyddo'r canllawiau sydd ar gael ynglŷn â sicrhau ardystiad. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â'r cymdeithasau masnach perthnasol i weld a fyddai ymagwedd ar y cyd yn ymarferol ac yn fuddiol.

Ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr a chontractwyr

Holwyd a oedd hyn yn fater sy'n fwy perthnasol i gontractwyr ynteu a yw'r ffocws yn fwy ar weithgynhyrchwyr. Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a'r math o ymatebwyr, a'r rhan fwyaf ohonynt yn weithgynhyrchwyr, byddai'n ymddangos mai mater sy'n fwy perthnasol i weithgynhyrchwyr yw hwn. Mae cyrchu cyfrifol wrth gwrs yn cael dylanwad ar gontractwyr. Yn y rhan fwyaf o brosiectau, ganddynt hwy y mae'r penderfyniad terfynol ynglŷn â pha ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio wrth adeiladu'r adeilad, ac os yw'n ofyniad defnyddio deunyddiau sydd ag ardystiad cyrchu cyfrifol, yna, nhw sy'n gyfrifol am gasglu'r wybodaeth hon gan eu cadwyn gyflenwi. Fel y nodwyd drwy gydol yr ymgynghoriad hwn, gall y broses hon fod yn draul ar amser ac yn gostus. Efallai nad yw'n broblem mor fawr i gontractwyr mwy o faint sydd â digon o adnoddau ond mae'n rhwystr i gontractwyr llai, yn enwedig os yw gweithgynhyrchwyr eu cadwyn gyflenwi'n ddibrofiad ym

maes ardystio cyrchu cyfrifol ac efallai y bydd angen mwy o amser arnynt i ddarparu'r wybodaeth ofynnol.

Serch hynny, nid oes yn rhaid i gontractwyr wneud cais am yr ardystiad eu hunain; y cyfan y mae angen iddynt ei wneud yw casglu'r wybodaeth gan y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn golygu, petai mwy o bwyslais yn cael ei roi ar alluogi gweithgynhyrchwyr llai i'w rhoi eu hunain mewn gwell sefyllfa i sicrhau ardystiad a gallu trefnu a chadw'r dogfennau gofynnol, y byddai hyn yn gwneud proses casglu'r wybodaeth yn symlach o lawer i Gontractwyr, yn enwedig y rhai llai, gan ostwng eu costau.

Ymgysylltu â chyflenwyr

Ni ddylid canolbwyntio'n unig ar weithgynhyrchwyr ac mae'n bwysig inni ystyried cyflenwyr hefyd. Bydd masnachwyr mawr yn y maes adeiladu'n darparu detholiad o filoedd o gynhyrchion gan amrywiaeth eang o weithgynhyrchwyr a chyflenwyr llai. Gallant chwarae rhan bwysig yn annog eu cadwyn gyflenwi i wneud cais am ardystiad a gallant wedyn hysbysebu'r detholiad o gynhyrchion a gyrchwyd mewn modd cyfrifol sydd ar gael i gwsmeriaid. Dylai hyn, gobeithio, olygu bod contractwyr yn gallu mynd at y masnachwyr nwyddau adeiladu mwy o faint hyn gan wybod eu bod yn prynu cynhyrchion sydd wedi cael ardystiad cyrchu cyfrifol a bod y dogfennau i gyd ar gael yn barod. Byddai hyn yn mynd gryn bellter i dawelu pryderon contractwyr.